# Cyngor Sir Ceredigion
# Datganiad o Bolisi Trwyddedu
# 2026-2031



Cymeradwywyd gan y Cyngor: 22ed Ionawr 2026

Dyddiad Cyhoeddi: 22ed Ionawr 2026

**Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg ac mewn print bras drwy gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu.**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Amcanion Trwyddedu ..... 5
3. Y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgor Trwyddedu ..... 5
4. Egwyddorion Sylfaenol ..... 5
5. Parthau ac Oriau Trwyddedu ..... 7
6. Galw Masnachol ..... 8
7. Niwed a Achosir gan Alcohol ..... 8
8. Cyffuriau ..... 10
9. Atal Troseddau ac Anrhefn ..... 12
10. Atal Niwsans Cyhoeddus ..... 13
11. Diogelwch Cyhoeddus ..... 14
12. Amddiffyn Plant Rhag Niwed ..... 16
13. Amserlen Weithredu ..... 18
14. Integreiddio Strategaethau a Rheolaethau Statudol ..... 18
15. Adloniant Rheoledig ..... 21
16. Gweinyddu ..... 22
17. Amodau ..... 22
18. Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau ..... 22
19. Polisi Effaith Gronnol ..... 23
20. Digwyddiadau ar Raddfa Fawr ..... 23
21. Goruchwyliwr Dynodedig y Safle (GDS) ..... 24
22. Gerddi Cwrw ..... 24
23. Gorfodi ..... 25
ATODIAD A ..... 26
ATODIAD B ..... 28
ATODIAD C ..... 30

# 1. Cyflwyniad

**Sir Ceredigion**

1.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cwmpasu rhanbarth sy'n gymysg o'r trefol a'r gwledig ac yn mesur oddeutu 1795 cilomedr sgwâr o ran maint. Mae'n cynnwys poblogaeth o oddeutu 70,600 o bobl (2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac amcangyfrifir bod 42,716 rhwng 16 a 64 oed.

1.2 Mae poblogaeth Ceredigion yn cynyddu'n fawr yn ystod misoedd yr haf oherwydd nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Mae chwe phrif dref yn y sir, sef Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Mae tair o'r rhain yn drefi marchnad ac mae un, sef Aberystwyth, yn dref brifysgol. Mae 7 ysgol uwchradd yn y sir (Aberystwyth 2, Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul ac Aberteifi). Mae topograffeg y sir yn cynnwys trefi gwyliau glan môr, ardaloedd mynyddig a chorslyd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ogystal â dyffrynnoedd gwyrddlas, ffrwythlon.

1.3 Amcangyfrifir bod oddeutu 600 o drwyddedau safle a chlwb yn y sir ar hyn o bryd ac mae'r rhain yn cynnwys tafarndai traddodiadol, bariau a chlybiau nos, llefydd gwerthu lluniaeth hwyr y nos, sinemâu, clybiau aelodau, gwestai a thai llety, siopau, archfarchnadoedd, siopau diodydd trwyddedig, theatrau a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau.

1.4 Mae Ceredigion hefyd yn cynnal ystod eang o ddigwyddiadau llai trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys perfformiadau cerddoriaeth, sioeau amaethyddol blynyddol, ffeiriau lleol a digwyddiadau cymunedol. Mae llawer o'r digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy, megis gwerthu alcohol, adloniant rheoledig, neu luniaeth hwyr y nos sy'n cael eu hawdurdodi trwy drwyddedau safle neu Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (HDDD). Prosesodd yr Awdurdod Lleol gyfanswm o oddeutu 114 o hysbysiadau digwyddiad dros dro yn ystod 2021, 406 o hysbysiadau digwyddiad dros dro yn ystod 2022, 269 o hysbysiadau digwyddiad dros dro yn ystod 2023, a 245 o hysbysiadau digwyddiad dros dro yn ystod 2024.

1.5 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddo gyflawni ei rôl fel yr Awdurdod Trwyddedu, i bennu a chyhoeddi datganiad o bolisi ("Polisi Trwyddedu") o ran arfer swyddogaeth drwyddedu'r Cyngor y bydd yn ei arddel yn gyffredinol i hybu'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau a wneir o dan y Ddeddf. Hwn yw'r Datganiad o Bolisi hwnnw sydd wedi'i baratoi yn unol â darpariaethau Deddf 2003 a fersiwn ddiweddaraf Canllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 y Ddeddf: Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (Chwefror 2025) (fersiwn hygyrch) – GOV.UK

1.6 Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n gyfrifol am roi trwyddedau safle, tystysgrif safle clwb a thrwyddedau personol ar gyfer gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos. Trwy'r ddogfen, cyfeirir at y Cyngor fel yr Awdurdod Trwyddedu ("yr Awdurdod"), lle bo hynny'n briodol er mwyn osgoi dryswch rhwng y rôl hon a'r swyddogaethau eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

1.7 Mae'r Polisi Trwyddedu hwn yn amlinellu sut y caiff ceisiadau am drwyddedau, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, eu hystyried gan yr Awdurdod Trwyddedu.

1.8 Wrth ddatblygu'r Datganiad Polisi hwn, mae cyngor cyrff megis y Gymdeithas Llywodraeth Leol a chymdeithasau masnach amrywiol wedi cael eu hystyried lle bynnag y bo'n bosibl. Mae polisïau corfforaethol eraill a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod wedi cael eu hystyried hefyd, a chyfeirir at y rhain trwy gydol y ddogfen hon fel y bro'n briodol.

1.9 Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol yn unol â'r polisi hwn, Deddf 2003, a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf hon.

1.10 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod efallai y bydd angen iddo wyro oddi wrth y polisi hwn mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a phan fydd achos penodol yn gofyn i benderfyniad o'r fath gael ei wneud er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.

1.11 Ni fydd y Datganiad Polisi yn ceisio rheoleiddio materion lle ceir darpariaeth ar eu cyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall; yn hytrach, bydd yn ceisio ategu cyfundrefnau o'r fath, e.e. cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelwch tân, ac ati.

1.12 Hoffai'r Awdurdod Trwyddedu annog trwyddedeion i ddarparu ystod eang o weithgareddau adloniant yng Ngheredigion yn ystod yr oriau y byddant ar agor gan hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio, theatr, ac ati, er lles diwylliannol ehangach y gymuned.

1.13 Bydd yr Awdurdod yn diweddaru ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd yn ôl yr angen ond mewn unrhyw achos bydd hyn yn digwydd o fewn **pum mlynedd** o ddyddiad y polisi hwn. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfrifol, partneriaid, deiliaid trwyddedau, cymdeithasau masnach, busnesau a grwpiau trigolion fel y bo'n briodol, a chaiff unrhyw sylwadau a ddaw i law eu hystyried ar yr adeg honno.

Daw'r Polisi Trwyddedu hwn i rym ar XXXX Ionawr 2026.

1.14 Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i adolygu a diwygio'r polisi hwn fel y bo'n briodol heb ymgynghori os bydd angen gwneud hynny i sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu ganllawiau eraill, neu am resymau eraill. Caiff unrhyw ddiwygiadau a wneir eu cyhoeddi.

1.15 Wrth ddiwygio'r polisi hwn ystyriwyd y materion canlynol:

- Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd gan y canlynol –
  - Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
  - Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
  - Offerynnau Statudol a osodwyd o dan y ddeddfwriaeth uchod
  - Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Deddf Trwyddedu 2003 a rheoliadau cysylltiedig eraill
  - Deddf Dadreoleiddio 2015
  - Deddf Mewnfudo 2016

## 2. Amcanion Trwyddedu

2.1 O dan Ddeddf 2003, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o hybu'r amcanion trwyddedu. Mae'r amcanion trwyddedu (<u>sydd yr un mor bwysig â'i gilydd</u>) fel a ganlyn:

- Atal troseddau ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Cydnabyddir nad y gyfraith drwyddedu yw'r prif fecanwaith ar gyfer rheoli niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion yn gyffredinol oherwydd unwaith y byddant wedi gadael y safle drwyddedig byddant y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr unigolion, y clwb neu'r busnes sy'n dal y drwydded. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr agwedd hon yn un allweddol gan y bydd rheolaeth o'r fath, ynghyd â deddfwriaeth drwyddedu, bob amser yn rhan o'r ymagwedd gyfannol at reoli'r economi gyda'r nos a hwyr y nos yng nghanol y trefi a'r dinasoedd.

2.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau cyfagos, yr heddlu, busnesau lleol, trwyddedeion a'r bobl leol wrth iddo hybu'r amcanion.

## 3. Y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgor Trwyddedu

3.1 Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio pwerau dirprwyedig i benderfynu pob cais trwyddedu lle nad yw sylwadau perthnasol wedi dod i law neu os yw sylwadau wedi dod i law a bod y partïon yn cytuno nad oes angen gwrandawiad.

3.2 Ymdrinnir â materion mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 fel y nodir yng nghynllun dirprwyo'r Awdurdod o dan ei gyfansoddiad **(Atodiad A).**

3.3 Rhoddir adroddiadau cyfnodol i'r Pwyllgor Trwyddedu ynghylch arfer y pwerau dirprwyedig.

3.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr Aelodau a'r swyddogion perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

## 4. Egwyddorion Sylfaenol

4.1 Ni fydd y polisi hwn yn cael blaenoriaeth dros hawl unrhyw unigolyn i wneud sylwadau ynghylch cais penodol neu ofyn am adolygiad os oes darpariaeth iddynt wneud hynny o dan Ddeddf 2003.

4.2 Mae trwyddedu yn ymwneud â rheoli a rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig mewn safleoedd trwyddedig, clybiau cymwys a digwyddiadau dros dro yn unol â thelerau Deddf 2003.

4.3 Mae'r amodau ar drwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn bwysig o ran gosod y paramedrau y gall safle weithredu'n gyfreithlon oddi mewn iddynt. Anogir defnyddio geiriau megis "rhaid" a "bydd".

4.4 Wrth ystyried yr amodau hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau a gynhelir mewn safle drwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, gweithio neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw.

4.5 Yn hyn o beth mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, fod nifer o ddulliau eraill ar gael ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n gallu digwydd i ffwrdd o'r safle trwyddedig. Ymhlith y rhain y mae'r canlynol:

- rheoli cynllunio;
- mesurau cadarnhaol i greu amgylchedd diogel a glân yng nghanol trefi mewn partneriaeth â busnesau lleol, cwmnïau trafnidiaeth ac adrannau eraill yr awdurdod lleol;
- y ddarpariaeth o ran systemau gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng yng nghanol trefi, safleoedd tacsis, cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr y nos, gwasanaeth glanhau strydoedd a phatrolau sbwriel;
- pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol fel mannau lle na ellid yfed alcohol yn gyhoeddus;
- y trefniadau ar gyfer cymryd alcohol oddi ar oedolion a phlant mewn mannau dynodedig;
- y pwerau sydd gan yr Heddlu o ran gorfodi'r gyfraith yn gyffredinol wrth ddelio ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- erlyn am y drosedd o werthu alcohol i unigolyn sy'n feddw (neu ganiatáu i hyn ddigwydd);
- pwerau i wahardd mynediad at safleoedd penodol oherwydd niwsans ac anhrefn;
- pŵer yr Heddlu, yr Awdurdodau Cyfrifol eraill neu unigolion eraill i ofyn i drwydded neu dystysgrif gael ei hadolygu;
- y cyfraniad a wneir tuag at blismona economi hwyr y nos drwy'r ardoll yn hwyr yn y nos;
- Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus;
- Gorchmynion Cyfyngu ar Alcohol yn Gynnar yn y Bore.

4.6 Bydd yr Awdurdod a'i bartneriaid yn parhau i fynd i'r afael â materion o'r math hwn drwy weithgareddau strategol a phartneriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

4.7 Bydd y polisi hwn yr un mor berthnasol o ran rhoi caniatadau newydd, adnewyddiadau, trosglwyddiadau ac amrywiadau i bob safle drwyddedig (oni nodir yn wahanol) gan gynnwys y canlynol:

- Trwyddedau Safle
- Tystysgrifau Safle Clwb
- Trwyddedau Personol
- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro

## 5. Parthau ac Oriau Trwyddedu

5.1 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu, yn ceisio cyfyngu ar oriau masnachu unrhyw safle penodol oni bai yr ystyrir ei bod yn briodol i hybu un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

5.2 Os na cheir unrhyw resymau penodol sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyfyngu ar allu safleoedd manwerthu trwyddedig yn ystod eu horiau masnachu cyffredinol i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Er enghraifft, byddai modd ystyried cyfyngiad pe byddai'r Heddlu yn cyflwyno sylwadau sy'n nodi bod ganddynt wybodaeth i ddangos bod y siop yn ganolbwynt troseddau ac anhrefn.

5.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr yn ystyriaeth bwysig, ac mewn rhai amgylchiadau gall oriau trwyddedu hyblyg ar gyfer gwerthu alcohol gynorthwyo i sicrhau bod modd osgoi sefyllfa lle mae cwsmeriaid yn crynhoi wrth adael safleoedd ar yr un pryd. Gallai hyn yn ei dro leihau'r gwrthdaro mewn safleoedd bwyd cyflym hwyr y nos, safleoedd tacsis a mathau eraill o drafnidiaeth a all arwain at drosedd, anhrefn ac aflonyddwch.

5.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cydnabod na ddylai oriau trwyddedu rwystro datblygiad economïau lleol ffyniannus a diogel gyda'r nos a hwyr y nos sy'n bwysig ar gyfer buddsoddi a chyflogaeth yn lleol, ac sy'n ddeniadol i dwristiaid domestig a rhyngwladol.

5.5 Serch hynny, pan fydd gan yr Awdurdod Trwyddedu'r disgresiwn, bydd bob amser yn pwyso a mesur yr ystyriaethau yn 5.3 a 5.4 uchod yn ofalus yn erbyn ei ddyletswydd i hybu'r amcanion trwyddedu ac amddiffyn hawliau trigolion a busnesau. Fodd bynnag, ni all Awdurdodau Trwyddedu geisio cyfyngu ar weithgareddau safleoedd trwyddedig os nad yw'n briodol gwneud hynny er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.

5.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod nad oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau trwyddedu ac y dylai'r pedwar amcan trwyddedu fod yn ystyriaethau hollbwysig bob amser.

5.7 Er na chafodd yr amser traddodiadol a elwir yn amser "gorffen eich diod" ei gario drosodd i'r Ddeddf, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai ymgeiswyr safle a drwyddedir i werthu alcohol ystyried gwneud cais am amser gorffen diod/tawelu. Bydd y cyfnod hwn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid adael yn raddol ac i gwsmeriaid yfed unrhyw alcohol a brynwyd yn ystod yr oriau trwyddedig.

5.8 Yn gyffredinol, bydd oriau hwyrach yn fwy priodol yng nghanol trefi nag ardaloedd eraill yn y sir oherwydd y seilwaith datblygedig o ran rheoli'r economi hwyr y nos, er enghraifft, rhwydwaith teledu cylch cyfyng, cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau glanhau a phresenoldeb gorfodi mwy gweladwy. Serch hynny, mae llawer o ardaloedd yn y trefi bellach yn datblygu i fod yn amgylchedd hybrid gyda chynnydd yn nifer y caffis, cyfleusterau hamdden a thai yn y trefi.

5. 9 Yn gyffredinol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i oriau fod yn briodol ar gyfer yr ardal leol. Lle mae sylwadau perthnasol, yr is-bwyllgor fydd yn penderfynu a yw'n cytuno ag unrhyw nodweddu ardal wrth ystyried cais sydd ger ei bron, gan ystyried y wybodaeth a roddwyd iddynt yn ogystal â defnyddio ei wybodaeth leol ei hun.

5.10 Ni fydd oriau'n cael eu lleihau fel offeryn bargeinio i gyfaddawdu; nid yw man cychwyn y cais yn bwysig, y canlyniad sy'n rhaid bod yn briodol o ran hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Anogir ymgeiswyr yn gryf i wneud cais am yr oriau y bwriadant eu gweithredu, ac mae'n bosib y gallai peidio â gwneud cais am oriau hwyrach (diangen) leihau'r tebygolrwydd o wrthwynebiadau yn erbyn y cais.

5.11 Er y bydd ansawdd y lleoliad a'r gweithredwr yn ystyriaeth bwysig yn gyffredinol a gall fod yn ystyriaeth berthnasol o ran cyfiawnhau priodoldeb awr derfynol hwyrach, mae'n aml y tu hwnt i allu'r gweithredwr i reoli effaith cwsmeriaid ar ôl iddynt adael y safle. Yn aml, bydd hwyrni awr derfynol y safle yn ffactor sy'n cyfrannu at y risg o feddwdod a'r posibilrwydd ar gyfer aflonyddu, ac felly gellir lleihau oriau trwyddedig er mwyn osgoi'r tebygolrwydd o niwsans ac oriau brig gwasgaru. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o risg amseroedd cau cyfnodol sy'n arwain at 'yfed mudol' a phroblemau ar y strydoedd wrth i gwsmeriaid symud o fariau sydd wedi cau i rai sydd ar agor.

## 6. Galw Masnachol

6.1 Nid mater i'r Awdurdod Trwyddedu yw'r galw masnachol am drwyddedau safle ychwanegol (yn wahanol i effaith gronnol). Ystyriaeth benodol i'r awdurdod cynllunio lleol yw materion o'r fath gan ystyried gofynion y fasnach drwyddedig a gofynion y farchnad.

## 7. Niwed a Achosir gan Alcohol

7.1 Gosodir amodau gorfodol ar bob trwydded safle, tystysgrif safle clwb ac awdurdodiad. Bwriad y rhain yw lleihau'r achosion o ddigwyddiadau hyrwyddo yfed annerbyniol a gweithgareddau eraill a ystyrir yn rhai anghyfrifol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn monitro safleoedd yn agos i sicrhau bod deiliaid trwydded yn dilyn yr amodau hyn.

7.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod alcohol yn un o brif achosion marwolaeth a salwch y gellir eu hatal yng Ngheredigion, ac mae'n cydnabod effaith camddefnyddio alcohol ar boblogaeth Ceredigion a'r gwasanaethau lleol. O ganlyniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol o effaith ei benderfyniadau ar atal camddefnyddio alcohol yn yr ardal.

7.3 Mae sylfaen dystiolaeth gryf ar gyfer effaith yfed alcohol ar iechyd a lles. Mae yfed alcohol yn cyfrannu at dros 60 o gyflyrau iechyd gwahanol gan gynnwys clefyd yr afu, syndrom alcohol y ffetws, a sawl math o ganser.

7.4 Mae ymchwil wedi dangos dro ar ôl tro fod y gallu i gael gafael ar alcohol ar sail economaidd, ddaearyddol neu amserol yn cael effaith arwyddocaol ar faint o niwed a

achosir sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys niwed i iechyd. Mae ymchwil ac arbrofion bywyd go iawn wedi dangos bod ystod yr amserau a'r diwrnodau y mae alcohol ar gael i'w werthu yn cael effaith sylweddol ar y niwed a achosir gan alcohol. Mae hwylustod cael gafael ar alcohol yn ddaearyddol hefyd yn cael effaith, fel y dangosir gan waith ymchwil sylweddol ar ddwysedd siopau. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 fod gorfodi polisïau trwyddedu yn arwain at leihau nifer y bobl a dderbynnir i ysbytai â chyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n cael eu dylanwadu gan fframweithiau trwyddedu lleol a dulliau gweithredu a gorfodi lleol.

7.5 Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod lleihau argaeledd alcohol a'r gallu i gael gafael arno yn allweddol er mwyn lleihau'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dylai cyflwyno isafbris uned alcohol yng Nghymru ym Mawrth 2020 (50c yr uned) helpu i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan alcohol.

7.6 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn rhan o waith ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru i leihau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd gyffredin a phenodol sy'n gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol yng Nghymru. Mae'n nodi ymrwymiad pendant i wella a diogelu ymhellach iechyd pobl Cymru, ac mae wedi'i hanelu'n benodol at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i yfed mwy o ddiodydd rhad sy'n gryf o ran alcohol.

7.7 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod yr effaith negyddol sylweddol ar iechyd ein trigolion ac ymwelwyr a achosir gan salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol (gweler isod).

---

- Cyfradd **oedran-safonedig Ewropeaidd** y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer **cyflyrau alcohol-benodol** yng Ngheredigion yw **264 fesul 100,000 o drigolion**, gan ei gwneud y **12fed isaf** yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu **gostyngiad o 6** derbyniad a **gostyngiad o 4%** ers 2018/19.
- Cyfartaledd **awdurdodau lleol Cymru** ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty alcohol-benodol yw **358 fesul 100,000**, gyda **gostyngiad o 5%** ers 2022/23. *(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023/24)*
- Yn **2023/24**, roedd **12,236 o dderbyniadau i'r ysbyty** yng Nghymru ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol, a **52,177 o dderbyniadau** oherwydd cyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol. *(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025)*
- Y **gyfradd oedran-safonedig Ewropeaidd** ar gyfer **derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol** yng Ngheredigion yw **913 fesul 100,000**, **gostyngiad o 14%** ers 2018/19. *(Cloddio Data Cymru: Y Proffil Blynyddol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2023/24 – Iechyd Cyhoeddus Cymru)*
- **Cyfartaledd treigl tair blynedd** cyfradd marwolaethau Ewropeaidd oedran-safonedig alcohol-benodol yw **16.0 fesul 100,000**, ond y **gyfradd marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol** yw **54.9 fesul 100,000**. *(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025)*
- Rhwng **2020 a 2022** cofnododd Ceredigion **gyfradd marwolaethau alcohol-benodol** o **16.4 fesul 100,000** sy'n **uwch na chyfartaledd Cymru**, sef **14.8 fesul 100,000**. *(Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024)*

7.8 Yng nghyd-destun y pedwar amcan trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig amcanion trwyddedu i leihau'r effaith y bydd eu safle nhw yn ei chael ar iechyd a lles cwsmeriaid, y gymdogaeth a'r gymuned ehangach.

7.9 Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried yr effaith y gallai eu safle ei chael ar bobl agored i niwed a phobl ifanc mewn perthynas â cham-drin alcohol. Dylent ystyried yn enwedig pa mor agos y mae eu safle i unrhyw ganolfannau triniaeth alcohol, ysgolion neu fannau eraill lle y gallai pobl ifanc ymgynnull, megis clybiau ieuenctid a pharciau.

7.10 I gael enghreifftiau o amodau trwyddedu a allai hyrwyddo'r amcan iechyd a llesiant, gweler Rhestr o Amodau Enghreifftiol y 4 Sir, sydd ynghlwm wrth y polisi hwn yn Atodiad C.

## 8. Cyffuriau

8.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymrwymo i leihau'r cyffuriau a geir mewn safleoedd trwyddedu a chael gwared ohonynt yn gyfan gwbl lle bynnag y bo modd, fel rhan o'i rôl o hybu'r amcan trwyddedu o ran troseddau ac anhrefn. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r holl ddeiliaid trwydded gefnogi'r amcan hwn yn y ffordd y maent yn cynllunio, rheoli a gweithredu'r safle.

8.2 Mae'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yn gyffredin a heb ei gyfyngu i iechyd yr unigolyn yn unig. Mae camddefnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau ar bresgripsiwn yn gyffredin ym mhob rhan o gymdeithas. Yn 2023 cofnodwyd 11.1 o farwolaethau camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ardal Hywel Dda, sy'n is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 8.8. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yng Ngheredigion yn 2023. (Ffynhonnell: ***(Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Marwolaethau Cysylltiedig â Chyffuriau. Adroddiad Blynyddol 2022-23)*.**

8.3 Mae cyfartaledd treigl tair blynedd cyfradd y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi cynyddu'n sylweddol, tra bod cyfradd y marwolaethau yng Ngheredigion wedi gostwng

8.4 Yng nghyd-destun hyrwyddo'r amcan o atal troseddau ac anhrefn, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded wneud y canlynol:

- Cymryd pob cam rhesymol i atal sylweddau anghyfreithlon rhag dod i mewn i'w safle a'u canfod;
- Cymryd pob cam rhesymol i atal delio'n anghyfreithlon mewn cyffuriau ar eu safle;
- Sicrhau bod eu staff yn cael eu hyfforddi i adnabod a nodi problemau â chyffuriau sy'n gysylltiedig â'r safle;
- Lle nodir bod camddefnyddio cyffuriau yn broblem, cysylltu a gweithio gyda'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu lleol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a godwyd;
- Lle ceir problemau cyffuriau, gweithredu polisi cyffuriau sy'n canolbwyntio ar atal a chanfod. Er mwyn cyflawni hyn, byddai'n ofynnol i'r safle gyflawni gwelliannau (megis cael gwared ar arwynebau gwastad yn y toiledau) a

chymryd, cadw a chofnodi unrhyw gyffuriau y deuir o hyd iddynt a threfnu iddynt gael eu rhoi i'r Heddlu;
- Rhoi gwybod i'r Heddlu lleol am unrhyw broblemau neu bryderon sy'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau;
- Er mwyn atal troseddau ac anhrefn, cydweithio â'r Heddlu yn ystod unrhyw fentrau sy'n ceisio mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, megis defnyddio cŵn cyffuriau, defnyddio dyfais ïoneiddiwr i ganfod cyffuriau, neu fentrau tebyg eraill.

8.5 Hyrwyddo diogelwch personol

Mae Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn sir ddiogel a chroesawgar i bawb, waeth beth fo rhyw, ethnigrwydd, rhywioldeb, credoau neu gefndir rhywun. Yn anffodus, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o sbeicio diodydd yn genedlaethol a'r galw am wasanaethau llesiant a gwasanaethau'r Heddlu yn dangos bod angen am waith partneriaeth sylweddol o hyd i ddatblygu economi nos Ceredigion ymhellach er mwyn gwella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig i bob ymwelydd, preswylydd, a'r rhai sy'n gweithio yn y sir yn y nos.

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod hyglwyfedd a diogelwch personol yn ystyriaethau pwysig wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr economi gyda'r nos a hwyr y nos ar draws y sir. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn adolygu'n gyson gyffredinrwydd, atal ac adrodd ar aflonyddu rhywiol, camymddwyn a thrais ar sail rhywedd.

Anogir gweithredwyr yn gryf i ddatblygu polisïau lleihau niwed ar gyfer eu busnesau a sicrhau bod mesurau digonol ar waith i amddiffyn a chefnogi cwsmeriaid mewn achosion o sbeicio diodydd a hyglwyfedd.

Ein nod yw hyrwyddo arferion gorau, gan gynnwys safonau arfer da Cymdeithas y Diwydiant Nos (NTIA) ar gyfer delio â sbeicio, a bod â dyletswydd gofal am gwsmeriaid (gweler y camau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu) yn ogystal ag integreiddio â mentrau eraill sy'n gysylltiedig â diogelwch yn y sir.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hyrwyddo ymgyrchoedd sy'n helpu i ddileu risgiau i bobl agored i niwed sy'n ymweld â safleoedd trwyddedig neu'n gweithio ynddynt. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y cynllun 'Man Diogel' a'r fenter 'Gofynnwch am Angela'. Mae Swyddogion Trwyddedu yn ceisio gweithio'n agos gyda deiliaid trwydded i annog ymgysylltiad cadarnhaol ag ymgyrchoedd o'r fath a helpu i hyrwyddo ac egluro pwysigrwydd cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i adolygu arfer gorau a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer trwyddedeion ac ymgeiswyr.

8.6

Rhaid i'r trwyddedeion a'u staff fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai ymddygiad neu ymarweddiad cwsmer fod wedi'u dylanwadu gan gyflyrau iechyd neu feddyginiaeth ar bresgripsiwn a'r sgil effeithiau, yn hytrach na chyffuriau anghyfreithlon neu feddwdod. Os oes gan y staff unrhyw amheuaeth, dylent ofyn i oruchwylydd dynodedig y safle neu'r rheolwr am gyngor, gan sicrhau bod parch ac urddas yn cael eu dangos i bob cwsmer wrth i'r safle gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu. Bydd hyn o gymorth i atal unrhyw

wahaniaethu a bydd yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cyfrifol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r polisïau.

## 9. Atal Troseddau ac Anrhefn

9.1 Yn ogystal â'r gofynion sydd ar Awdurdod Trwyddedu i hybu'r amcanion trwyddedu, mae dyletswydd arno hefyd o dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yng Ngheredigion, a'r angen i wneud yr hyn y gall yn rhesymol ei wneud i atal hynny. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i awdurdodau lleol cyfagos (grŵp trwyddedu'r 4 Sir), yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, Grwpiau Diogelwch Cyhoeddus Ceredigion, busnesau lleol, deiliaid trwydded (cyfarfodydd BOBB) a'r cyhoedd.

9.2 Gall safleoedd trwyddedig, yn enwedig y rhai sy'n cynnig adloniant, alcohol a lluniaeth hwyr y nos/yn gynnar yn bore, fod yn lleoliadau lle ceir mwy o achosion o droseddau ac anhrefn.

9.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ar gyfer y mathau hyn o safleoedd sicrhau bod eu hamserlenni gweithredu yn mynd i'r afael â'r materion posibl hyn. Caiff ymgeiswyr eu hannog i gysylltu â swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu i drafod y materion hyn ac i ystyried y polisïau cynllunio lleol a strategaethau atal troseddu wrth baratoi amserlenni gweithredu.

9.4 Dylai ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau safle hefyd adolygu eu cynllun busnes safle a'u gweithgareddau ac oriau arfaethedig i'w helpu i ddrafftio amserlen weithredu briodol a fydd yn sail i'r amodau ar eu trwydded.

9.5 Os yw'r ymgeisydd yn ystyried gosod teledu cylch cyfyng (CCTV) neu os gofynnwyd am hynny yn dilyn sylwadau gan Awdurdod Cyfrifol, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn darllen canllawiau Heddlu Dyfed-Powys sydd i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon: DPP-CCTV-licensed-premises-guidelines.pdf

9.6 Mae materion eraill y dylai'r ymgeisydd eu hystyried yn cynnwys:

- A oes angen staff drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, yr oriau agor a'r math o adloniant sydd ar gael a'r lluniaeth a gynigir i'w gwerthu gyda'r hwyr;
- Cynlluniau prawf oedran a gofynion prawf adnabod, megis y polisi Herio 21/25;
- Cynnal llyfr manwl sy'n cofnodi unigolion a wrthodir a digwyddiadau – bydd hwn ar gael i'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol ei adolygu;
- Yr hyfforddiant a'r sesiynau gloywi a gynigir i'r staff a'r gwaith o gadw cofnodion cywir a pharod ar gyfer hyfforddiant;
- A yw defnyddio gwydrau plastig/caled (polypropylen) ar y safle wedi cael ei ystyried;
- Polisi cyffuriau/chwilio a chanfod arfau.

9.7 Bydd yr Awdurdod Lleol, ynghyd â'r Heddlu ac asiantaethau eraill, yn parhau i gydweithio â deiliaid trwydded safle ac â staff sy'n gweithio yn y diwydiant a'r economi gyda'r nos ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn nodi ac atal achosion o gaethwasiaeth

fodern, masnachu mewn pobl, camfanteisio'n rhywiol, terfysgaeth a chyflenwi cyffuriau (megis drwy'r fenter llinellau cyffuriau).

9.8 Dylai staff sy'n gweithio yn y sector lletygarwch a'r economi gyda'r nos gael hyfforddiant ar ba arwyddion i gadw golwg amdanynt a bod yn ymwybodol ynghylch sut i riportio materion a phryderon diogelu.

## 10. Atal Niwsans Cyhoeddus

10.1 Mae potensial mawr y gall niwsans cyhoeddus sy'n deillio o safleoedd trwyddedig effeithio'n andwyol ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cyffiniau ac ymhellach i ffwrdd.

10.2 Yn amodol ar y gyfraith achosion, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dehongli 'niwsans cyhoeddus' yn ei ystyr ehangaf, ac mae'n ystyried ei fod yn cynnwys materion megis sŵn, golau, arogl, sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle mae'r materion hyn yn effeithio ar y rheini sy'n byw, gweithio neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau arferol yn yr ardal a bod yr hyn sy'n digwydd mewn safle drwyddedig yn effeithio arnynt.

10.2.1 Yng Nghymru mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chasglu gwastraff yn briodol a gwaredu ar gyfer ailgylchu wedi newid. O 6 Ebrill 2024 ymlaen, bydd y gyfraith newydd yn golygu bod yn rhaid i bob gweithle gyflwyno deunyddiau ar wahân i'w casglu ar gyfer ailgylchu a threfnu i'r gwastraff gael ei gasglu ar wahân i wastraff arall. Gweler llyw.cymru ar gyfle rheoliadau ailgylchu yn y gweithle.

10.2.2 Rheoliadau ailgylchu yn y gweithle: canllaw ar gyfer trefnwyr digwyddiadau awyr agored a gwyliau | LLYW.CYMRU

10.2.3 Mae 'dyletswydd gofal' i sicrhau bod unrhyw wastraff yn cael ei gynnwys a'i reoli'n briodol tra bydd ym meddiant y gweithredwr, a'i fod yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff cyfrifol. Nid yw'r Ddeddf Drwyddedu yn dyblygu'r gyfraith hon, ond bydd angen i ddeiliaid trwydded ddilyn arferion da o ran rheoli gwastraff er mwyn atal niwsans cyhoeddus.

10.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod rheolaeth deiliad y drwydded dros ei cwsmeriaid y tu hwnt i gyffiniau'r safle yn lleihau ac mae'r unigolion sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn gyfrifol am eu hymddygiad nhw eu hunain. Nid yw'r drefn drwyddedu yn fecanwaith ar gyfer rheoli niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion yn gyffredinol unwaith y byddant y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr unigolyn, y clwb neu'r busnes sy'n dal y drwydded, y dystysgrif neu'r caniatâd dan sylw.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cadw mewn cysylltiad â'r heddlu a gwasanaethau iechyd y cyhoedd fel y gellir ystyried effaith gronnol safle trwyddedig ar ardal benodol a bydd yn ystyried yn ofalus yr angen i gynnal unrhyw asesiad o'r effaith gronnol.

10.4 Mae'r materion sy'n achosi 'niwsans cyhoeddus' yn cynnwys sŵn, baw, llygredd, arogleuon a sbwriel (gan gynnwys stwmps sigaréts) neu unrhyw faterion eraill a all gyfrannu at gael effaith andwyol ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r safle drwyddedig.

10.5 Disgwylir i ymgeiswyr am drwyddedau safle newydd ymchwilio i'r ardal y maent yn bwriadu gweithredu ynddi, ac mae disgwyl hefyd i'w hamserlenni gweithredu ystyried y math o ardal y mae'r busnes wedi'i lleoli ynddi. Hefyd bydd angen i'r ymgeiswyr ystyried yr effaith y bydd y busnes yn ei chael ar yr ardal a chynnwys yn eu hamserlen weithredu fesurau cadarnhaol i reoli ffynonellau niwsans posibl. Yn ogystal, dylai'r amserlen asesu risg a gweithredu gynnwys mesurau i reoli niwsans y tu allan i'w hadeilad, megis rheoli ciwiau, mannau ysmygu a sbwriel.

10.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell bod ymgeiswyr yn sicrhau eu bod yn gweithredu rheolau llym i leihau'r posibilrwydd o niwsans cyhoeddus a allai ddeillio o waith eu busnes, yn enwedig:

a) Lle mae'r safle wedi'i lleoli mewn ardal breswyl neu ardal sensitif o ran sŵn.
b) Pan wneir cais i ymestyn oriau agor.

10.6.1. Rhaid i safleoedd trwyddedig sy'n darparu seddi i bobl yfed alcohol sicrhau bod ganddynt ddigon o doiledau ar gyfer y cwsmeriaid.

10.7 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

10.7.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati wedi hyn fel Deddf Llesiant 2015) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu gwaith gyda'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant; mae hyn yn cynnwys y gwaith o gyflawni eu swyddogaeth drwyddedu. Un o'r conglfeini i'w hystyried yw'r gwaith o reoli sŵn a'i effaith ar iechyd a llesiant.

10.7.2 Ar hyn o bryd nid yw'r canllawiau trwyddedu statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cyfeirio at sut y dylai Awdurdodau Trwyddedu roi sylw i ofynion Deddf Llesiant 2015, yn benodol sut y gallai ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n amlwg yng Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-2023 Llywodraeth Cymru fod effaith sŵn yn cael ei chydnabod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r cynllun gweithredu hwn wrth benderfynu ceisiadau.

WelshGovernment-Noise-and-Soundscape-Action-Plan.pdf

## 11. Diogelwch Cyhoeddus

11.1 Mae cyfrifoldeb gan ddeiliaid trwydded i sicrhau diogelwch y rheini sy'n defnyddio eu safle fel rhan o'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2003. Mae hyn yn ymwneud â diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r safle perthnasol yn hytrach nag iechyd y cyhoedd y rhoddir sylw iddo mewn deddfwriaeth arall.

11.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau safle gyflawni asesiadau risg diogelwch ar gyfer eu safle a chynnwys yn eu hamserlen weithredu fesurau sy'n sicrhau diogelwch eu cwsmeriaid a'u staff. Cynghorir ymgeiswyr i geisio cyngor gan sefydliadau amrywiol, megis Swyddogion Gorfodi Iechyd a Diogelwch Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac ati, cyn paratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni, yn enwedig lle mae adloniant rheoledig i'w ddarparu. Bydd hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr gael asesiadau risg yn amlinellu sut y

bydd yn gweithredu yn ystod achosion o glefydau trosglwyddadwy / clefydau heintus megis coronafirws 2 syndrom anadlol acíwt difrifol (SARS-CoV-2) h.y. Covid-19.

11.3 Dylai ymgeiswyr ystyried natur eu safle, y cleientiaid arfaethedig, yr oriau gweithredu a gwybodaeth leol wrth ystyried a ddylent gynnwys yn eu hamserlen weithredu fesurau i liniaru pryderon o ran diogelwch y cyhoedd, gan gynnwys:

- Gosod teledu cylch cyfyng
- Rheoli ciwiau a thorfeydd
- Nifer addas o staff cymwys Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Symud peryglon a allai beri i bobl faglu
- Defnyddio gwydrau polycarbonad/polisi dim poteli
- Profi gweithdrefnau, offer, systemau ac ati sy'n berthnasol i ddiogelwch yn rheolaidd (ac ardystio lle bo'n briodol)
- Cyfleusterau cymorth cyntaf priodol a hyfforddiant staff ar pryd i roi/peidio â rhoi cymorth cyntaf
- Hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol i'r rhai sy'n cael eu cyflogi neu eu defnyddio i sicrhau diogelwch pawb sy'n mynychu'r safle
- Mabwysiadu canllawiau arfer gorau (gellir cael cymorth trwy gysylltu ag Iechyd yr Amgylchedd, Diogelwch Tân a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch).

11.4 Cyflwynodd Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ofyniad bod rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am reoli safle wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau y gallai pobl fod yn agored iddynt at ddiben nodi'r rhagofalon tân cyffredinol y mae angen eu cymryd. Felly, ni ellir gosod unrhyw amodau ar awdurdodiad lle mae'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch tân. Disgwylir felly y bydd deiliaid awdurdodiad yn cynnal asesiad risg trylwyr sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Dylid cadw'r asesiad risg ar y safle a dylai fod ar gael ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor.

11.5 **Cyfraith Martyn**

- Cafodd Deddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) 2025, a elwir yn gyffredin yn Gyfraith Martyn, Gydsyniad Brenhinol ar ddydd Iau, 3 Ebrill 2025. Mae Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn gwasanaethu fel y Prif Awdurdod Llywodraethu sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Ddeddf.
- Mae Cyfraith Martyn yn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i wella diogelwch lleoliadau a digwyddiadau cyhoeddus rhag terfysgaeth. Disgwylir i safleoedd trwyddedig gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau a'r rheoliadau a fydd yn gysylltiedig â'r Ddeddf.
- Er mwyn cefnogi gweithrediad Cyfraith Martyn, anogir lleoliadau trwyddedig yn gryf i gwblhau'r cyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth rhad ac am ddim **ACT (Gweithredu yn Erbyn Terfysgaeth).** Argymhellir y rhain yn arbennig ar gyfer gweithredwyr lleoliadau, Goruchwylwyr Dynodedig y Safle, ac unigolion mewn rolau rheoli.
- Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adnoddau swyddogol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref ac Awdurdod y Diwydiant Diogelwch: Cyfraith Martyn: rôl reoleiddio newydd Awdurdod y Diwydiant Diogelwch – GOV.UK

### 11.6 Diogelwch Torfeydd

Rhaid i leoliadau gael polisi clir ac effeithiol yn ei le ar gyfer rheoli torfeydd mawr, yn enwedig yn ystod digwyddiadau sy'n denu llawer o bobl, megis cyngherddau neu gemau chwaraeon. Dylai hyn gynnwys:

- Terfynau capasiti wedi'u diffinio'n glir
- Rheolaeth reoledig o fannau cyrraedd a gadael
- Staff wedi'u hyfforddi mewn technegau rheoli torfeydd a gweithdrefnau brys

Mae cynllunio a pharatoi priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant yr holl fynychwyr

## 12. Amddiffyn Plant Rhag Niwed

12.1 Ni fydd dim yn y datganiad polisi hwn yn cyfyngu nac yn ei gwneud yn ofynnol i blant gael mynediad i eiddo oni bai ei bod yn briodol ar gyfer atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol iddynt. Amlinellir y meysydd sy'n destun pryder penodol mewn rhannau eraill o'r polisi hwn. Dylid ystyried rhinweddau unigol pob cais ym mhob achos.

12.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gallai fod angen ystyried cyfyngiadau os yw'n ymddangos ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol i amddiffyn plant rhag niwed.

12.3 Wrth benderfynu a ddylid cyfyngu ar fynediad plant ai peidio, bydd yr Awdurdod yn barnu pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd a allai beri pryder arbennig ynghylch plant:

- Safle lle bu euogfarnau am weini alcohol i rai o dan 18 oed
- Safle ag enw am yfed dan oed
- Safle sy'n gysylltiedig â chymryd cyffuriau neu ddelio mewn cyffuriau
- Safle lle darperir adloniant i oedolion neu adloniant rhywiol ei natur
- Safle lle mae elfen gryf o hapchwarae
- Safle lle mai gwerthu alcohol yw unig bwrpas neu brif bwrpas y gwasanaethau a ddarperir.

12.4 Os ystyrir ei bod yn angenrheidiol a/neu'n briodol er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol, ystyrir nifer o opsiynau er mwyn cyfyngu ar fynediad plant i safleoedd trwyddedig, gan gynnwys y canlynol:

- Cyfyngu ar yr oriau y caniateir i blant (o dan 16) fod yn bresennol
- Cyfyngiadau oedran (dan 18)
- Cyfyngiadau sy'n ymwneud â gwahardd plant o dan oedrannau penodol rhag bod yn bresennol pan fydd gweithgareddau penodol yn digwydd
- Cyfyngiadau ar y rhannau o'r safle y caniateir i blant gael mynediad atynt
- Gofynion o ran yr oedolyn sydd yng ngofal y plentyn
- Gwaharddiad llawn ar bobl o dan 18 oed o'r safle pan fydd unrhyw weithgareddau trwyddedig yn digwydd.

12.5 Yn achos safleoedd sy'n dangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod yn disgwyl i safleoedd neu glybiau trwyddedig gynnwys trefniadau yn eu hamserlenni gweithredu i rwystro

plant rhag gweld ffilmiau sydd dan gyfyngiad oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu'r awdurdod lleol.

12.6 Dylai gweithredwyr lleoliadau sy'n gofyn am drwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb ystyried cynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau o'r fath yn eu hamserlenni gweithredu yn enwedig os yw eu hasesiadau risg eu hunain wedi dangos y byddai presenoldeb plant yn annymunol neu'n amhriodol.

12.7 Yn ogystal â'r argymhellion ym mharagraffau 9.7 a 9.8 y polisi hwn mewn perthynas â diogelu, nid yw'r awdurdod yn cefnogi systemau croesawu cwsmeriaid digyffwrdd (rhith-dderbynfa) lle nad yw aelod o staff yn bresennol i ddelio â chwsmeriaid wrth eu croesawu i'r gwesty neu'r motél.

12.8 **Gwerthu drwy Ddirprwy**

Rhaid bod gweithdrefnau digonol yn eu lle i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio ar y safle yn cael eu hyfforddi a'u hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â gwerthu alcohol trwy ddirprwy. Rhaid i oruchwylwyr dynodedig y safleoedd a deiliaid trwyddedau safle sicrhau bod pob gweithdrefn a cham rhesymol yn eu lle i atal oedolion rhag prynu alcohol i'r rhai dan oed. Mae amod enghreifftiol CD7 yn ei gwneud hi’n ofynnol i bob aelod o staff sy’n ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy dderbyn hyfforddiant a gwybodaeth ynglŷn â gwrthod gwasanaeth i unrhyw berson sy’n ymddangos fel petaent yn prynu drwy ddirprwy, a disgwylir y bydd gan y safle trwyddedig weithdrefnau gweithredu sydd wedi’u dogfennu ynghyd â chofnodion o ran y mater hwn. Mae’r Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol wedi paratoi canllawiau a hyfforddiant ynglŷn â gwerthu drwy ddirprwy. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pobl sy’n gyfrifol am werthu a danfon alcohol yn gwbl ymwybodol na ddylid gwerthu alcohol i unigolion o dan 18 oed. Disgwylir y bydd y camau hyn yn cynnwys mesurau gwirio oedran (gweler enghreifftiau o dan amod enghreifftiol C7 sy’n ymwneud â Her 25) i gadarnhau mai dim ond i oedolion y caiff alcohol ei werthu a’i ddanfon. Dylai ymgeiswyr newydd sy’n bwriadu gweithredu gwasanaeth danfon alcohol gynnwys amodau enghreifftiol A1 i A5.

Dylid bod yn barod i wrthod cyflenwadau alcohol mewn amgylchiadau lle ceir niwsans neu anhrefn sy’n gysylltiedig ag alcohol, neu pan gyflenwir alcohol i unrhyw un sy’n ymddangos fel petai’n feddw.

12.9 **Cyflogi Plant**

12.10 Ni chaniateir i bobl ifanc (16 ac 17 mlwydd oed) weini alcohol heb oruchwyliaeth mewn safleoedd trwyddedig. Ni chaniateir i blant dan 16 oed werthu na danfon alcohol.

Mae trwyddedau gwaith yn ofynnol pan gyflogir plant rhwng 13 a 16 oed. Mae modd cael y rhain drwy gofrestru â Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yr Awdurdod Lleol. Bydd y gwasanaeth hwn hefyd yn medru cynghori dan ba amgylchiadau y gall plant dan 13 oed weithio.

Wrth gofrestru ar gyfer trwydded waith, mae angen gwneud asesiad risg gwaith. Mae asesiad risg hefyd yn cael ei argymell ar gyfer pobl ifanc eraill pan fyddant yn cael eu cyflogi mewn safleoedd trwyddedig.

Gall unrhyw un sydd â phryderon am gyflogi plant gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg. Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, ffurflenni cofrestru ac asesiadau risg, ewch i'r dudalen Cyflogaeth Plant ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

12.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried mai Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yw'r corff cymwys i weithredu fel yr Awdurdod Cyfrifol mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag niwed. Gellir gweld rhestr o'r holl Awdurdodau Cyfrifol yn **Atodiad B**.

## 13. Amserlen Weithredu

13.1 Gall yr Awdurdod Trwyddedu roi cyngor cyffredinol ynghylch llunio amserlenni gweithredu ac argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn trafod eu hamserlenni gweithredu â'r Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno.

13.2 Mae'n ofynnol cyflwyno amserlenni gweithredu gyda phob cais newydd neu gais am amrywiad. Dylai'r amserlen weithredu gynnwys manylion ynghylch sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Y cynigion a geir yn yr amserlen weithredu fydd yn ffurfio prif gorff yr amodau a fydd yn berthnasol i'r safle ynghyd ag unrhyw amodau gorfodol perthnasol, unrhyw amodau y cytunir arnynt gydag un o'r Awdurdodau Cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio, ac unrhyw amodau a osodir gan Is-bwyllgor Trwyddedu lle rhoddwyd sylwadau dilys.

13.3 Wrth gwblhau amserlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr roi sylw i'r datganiad polisi trwyddedu hwn a dangos gwybodaeth addas o'u hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## 14. Integreiddio Strategaethau a Rheolaethau Statudol

14.1 Mae amrywiaeth o ddylanwadau strategol a rheolaethau statudol sy'n effeithio ar y system drwyddedu o ran llunio polisi, gweinyddu a gorfodi. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae gan y Cyngor ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac ystyriaethau o dan ddeddfwriaeth a strategaethau eraill, er enghraifft:

a) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (yn benodol y rhwymedigaethau o dan adran 17 sy'n ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn);
b) Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n cael effaith drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998;
c) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (fel y'i diwygiwyd)
ch) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014;

d) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014;
dd) Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006;
e) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd);
f) Deddf Sŵn 1996;
ff) Deddf Iechyd 2006;
g) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974;
ng) Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (fel y'i diwygiwyd);
h) Deddf Plismona a Throsedd 2009;
i) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
l) Deddf Masnachu ar y Sul 1994;
ll) Deddf Dydd Nadolig (Masnachu) 2004;
m) Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975;
n) Deddf Iechyd y Cyhoedd 2006;
o) Deddf Cydraddoldeb 2010;
p) Cyfarwyddeb Cymathedig 2006/123 a Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009;
ph) Unrhyw Strategaeth Alcohol Genedlaethol;
r) Deddf Mewnfudo 2016;
rh) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
s) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).

14.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth ganlynol pan fydd yn penderfynu cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Trwyddedu. Nid yw'r rhestr hon wedi'i chyfyngi i:

a) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – sŵn a niwsans
b) Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005 – Diogelwch Tân
c) Deddf Priffyrdd 1980 sy'n ymdrin â thrwyddedau caffis palmant.

14.3 Mae'r Awdurdod yn cydnabod integreiddio a chydlynu polisïau, strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud ag atal troseddau lleol, cynllunio, twristiaeth, cynlluniau cydraddoldeb, strategaethau diwylliannol a threfniadau canol trefi a'r economi gyda'r nos. Fel arfer, mae gweithredwyr safleoedd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill a allai fod yn berthnasol, er enghraifft, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

14.4 Wrth ddelio â'r swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, cyn belled ag y bo modd, yn ceisio osgoi dyblygu o ran y cyfundrefnau rheoleiddio eraill. Os oes cyfraith eisoes yn bodoli sy'n gosod cyfrifoldebau statudol penodol ar weithredwr safle neu bwyllgor rheoli clwb, dylid osgoi dyblygu a pheidio â gosod dyletswyddau tebyg trwy drwydded safle neu dystysgrif clwb.

14.5 Mewn amgylchiadau priodol, gall y Cyngor ystyried gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu am drwyddedau safle yn ei enw ei hunan ar gyfer ei fannau cyhoeddus ei hunan yn y gymuned. Gallai hyn fod o gymorth i hyrwyddo gweithgareddau ac adloniant diwylliannol ehangach.

14.6 O ran strategaethau diwylliannol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, er enghraifft, drwy ymgynghori'n achlysurol â Gwasanaethau Hamdden a Swyddogion Twristiaeth y

Cyngor, yn ystyried a yw'r gofynion trwyddedu lleol yn llesteirio'r ddarpariaeth o ran cerddoriaeth fyw, gweithgareddau diwylliannol ac adloniant.

14.7 Lle bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn briodol, ac er mwyn integreiddio'r swyddogaeth drwyddedu a'r polisi yn briodol, gall yr Awdurdod Trwyddedu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ddarparu adroddiadau cyfnodol i'r Awdurdod Cynllunio a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghylch y sefyllfa gyffredinol o ran safleoedd trwyddedig yn yr ardal, a gallai hyn gynnwys cyfeiriad at effaith trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.

14.8 **Y Berthynas â'r Broses Gynllunio**

14.8.1 Fel arfer dylai ceisiadau ar gyfer trwyddedau safle ar gyfer safleoedd masnachol parhaol gael eu cyflwyno gan fusnesau sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Serch hynny, gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn gofyn am unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol neu cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi'r caniatâd hwnnw.

14.8.2 Argymhellir yn gryf bod darpar ymgeiswyr am drwydded yn cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gwneud cais am drwydded er mwyn gwirio unrhyw ganiatadau cynllunio neu unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r defnydd a wneir o'r safle. Bydd hyn yn osgoi torri unrhyw reolau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth gynllunio.

14.8.3 Dymuna'r Awdurdod Trwyddedu bwysleisio nad yw'r ffaith bod y Pwyllgor Trwyddedu yn rhoi unrhyw drwydded neu awdurdodiad yn golygu nad oes angen i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu lle bo hynny'n briodol.

14.8.4 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio gwahanu'r cyfundrefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu yn briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cyfundrefnau trwyddedu a chynllunio yn ystyried materion gwahanol, er eu bod yn gysylltiedig.

14.8.5 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid yw'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i rwymo gan benderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu.

14.8.6 Lle bydd amod caniatâd cynllunio yn gosod amser cau penodol ar gyfer defnyddio'r eiddo at ddibenion masnachol a bod yr amser hwnnw yn gynharach na'r oriau trwyddedu, bydd disgwyl i'r trwyddedai gadw at yr amser cau cynharaf.

14.8.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

14.9 **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)**

14.9.1 Cynghorir perchnogion a meddianwyr tir lle cynhelir digwyddiad lle mae'r tir dan sylw wedi'i gynnwys o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) i geisio cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn dechrau'r digwyddiad. Bydd angen caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CNC ar gyfer gweithrediadau neu weithgareddau yr ystyrir y gallai fod yn niweidiol i nodweddion dynodedig y safle oni bai eu bod yn rhan o gytundeb rheoli a baratowyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Gall methu â chael unrhyw ganiatâd angenrheidiol a chydymffurfio â'i amodau heb esgus rhesymol fod yn drosedd.

14.9.2 Gall rhywun sy'n trefnu, hwyluso neu fynychu digwyddiad sydd, heb esgus rhesymol, yn fwriadol neu'n ddi-hid yn dinistrio neu'n difrodi nodwedd(ion) dynodedig SoDdGA neu'n tarfu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar ffawna dynodedig SoDdGA fod yn cyflawni trosedd. Gall y drosedd hon fod yn berthnasol i ddifrod neu aflonyddu sy'n digwydd ar dir y tu allan i ffin y digwyddiad. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu â CNC i gael cyngor cyn cynnal y digwyddiad.

14.9.3 Cyfoeth Naturiol Cymru / Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA): cyfrifoldebau perchnogion a meddianwyr. Gellir cysylltu â CNC ar 0300 065 30000

## 15. Adloniant Rheoledig

15.1 Nid diben na bwriad y polisi hwn yw cynghori neu ddyblygu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adloniant rheoledig. Yn gyffredinol, mae'r mathau o adloniant rheoledig y mae angen trwydded ar eu cyfer o dan Ddeddf 2003 wedi'u rhestru isod:

- a) dangos ffilm
- b) perfformio drama
- c) digwyddiad chwaraeon dan do
- ch) adloniant paffio neu reslo
- d) perfformiadau cerddoriaeth fyw
- dd) chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio
- e) perfformiadau dawns
- f) adloniant tebyg i berfformiad o gerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio neu berfformiad dawns

15.2 Er mwyn i berfformiad fod yn drwyddedadwy, mae angen i'r gweithgaredd ddigwydd naill ai:

1) ym mhresenoldeb cynulleidfa gyhoeddus, neu
2) os yw'r gweithgaredd yn digwydd yn breifat, bod yn destun tâl a godir gyda'r bwriad o wneud elw.

15.3 Mae'r amgylchiadau ar gyfer pob un ohonynt yn dibynnu'n fawr ar y math o safle, y lleoliad, y darparwr ac amser yr adloniant. Mae manylion ynglŷn â hyn i'w gweld yn Neddf Trwyddedu 2003, Canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Adran 182, Deddf Trwyddedu 2003, a'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf.

## 16. Gweinyddu

16.1 Tîm trwyddedu'r Awdurdod sy'n gweinyddu pob agwedd ar Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys y ceisiadau, y sylwadau a'r ceisiadau am gymorth a chyngor. Mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer trwyddedeion, ymgeiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall.

## 17. Amodau

17.1 Gall yr ymgeiswyr gynnig amodau yn yr amserlen weithredu fel rhan o'u cais; gall yr Awdurdod ddileu neu ail-eirio unrhyw rai o'r amodau hyn os ystyrir eu bod yn aneglur, yn amwys neu os nad oes modd eu gorfodi, gyda chytundeb yr ymgeisydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon yn deall eu cyfrifoldebau i hybu'r amcanion trwyddedu yn llawn.

17.2 Ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu osod amodau safonedig fel y bydd amodau yn cael eu hychwanegu at y safle dim ond pan fydd hynny'n briodol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.

17.3 Bydd yr Awdurdod yn osgoi ychwanegu amodau sy'n dyblygu cyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

17.4 Dylid teilwra'r amodau i faint math, lleoliad, nodweddion a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y safle dan sylw, a rhaid iddynt fod yn briodol ar gyfer hybu'r amcanion trwyddedu.

17.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gall osod amodau dim ond pan dderbynnir sylwadau perthnasol ac os ystyrir bod yr amodau'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan fydd Awdurdod Cyfrifol yn rhoi tystiolaeth ei bod yn briodol gosod amodau penodol, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y cais a gall awgrymu geiriad addas i sicrhau bod unrhyw amod a osodir yn glir, yn berthnasol a bod modd ei orfodi.

## 18. Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau

18.1 Mae Deddf 2003 yn nodi mai'r Pwyllgor Trwyddedu fydd yn cael neu'n cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu (gan gynnwys ei benderfyniadau). Gall y Pwyllgor Trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Is-bwyllgorau.

18.2 Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau i raddau helaeth yn rhai gweinyddol eu natur nad oes elfennau dadleuol yn perthyn iddynt. Er mwyn sicrhau hwylustod, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran cost bydd y rhain, ar y cyfan, yn cael eu cyflawni gan y swyddogion.

18.3 Mae'r Atodlen yn Atodiad A yn amlinellu'r cynllun dirprwyo swyddogaethau. Er gwaetha'r rhagdybiaeth hon o blaid dirprwyo, cadwa'r Awdurdod yr hawl i gyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

## 19. Polisi Effaith Gronnol

19.1 Mae effaith gronnol y safleoedd trwyddedig ar y gwaith o hybu amcanion trwyddedu yn fater priodol i Awdurdod Trwyddedu ei ystyried wrth ddatblygu ei ddatganiad polisi trwyddedu. Gall Awdurdod Trwyddedu dderbyn sylwadau gan Awdurdod Cyfrifol neu berson arall (diffinnir y ddau gan y Ddeddf), yn nodi bod effaith gronnol trwyddedau newydd yn golygu bod ardal yn dod yn orlawn o safleoedd o fath arbennig, sy'n ei gwneud yn ardal lle bydd tyrfaoedd mawr o bobl yn ymgynnull, gan greu problemau eithriadol o ran anrhefn a niwsans y tu hwnt i effaith y safleoedd unigol eu hunain. Gall gymryd yr uchod i ystyriaeth yn ogystal â'i dystiolaeth ei hun o'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.

19.2 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu cwota o unrhyw fath a fyddai'n penderfynu ynghylch unrhyw gais o flaen llaw, ac ni fydd ychwaith yn mynd ati i osod cyfyngiadau cyffredinol ar oriau masnachu mewn ardaloedd penodol. Yn lle hynny, rhoddir ystyriaeth i nodweddion unigol y safle dan sylw o fewn ardal benodol. Cydnabyddir bod tafarndai, clybiau nos, tai bwyta, gwestai, theatrau, a chlybiau eraill i gyd yn gwerthu alcohol, yn gweini bwyd ac yn darparu adloniant ond mewn dulliau gwahanol a chyda nodweddion gwahanol. Rhoddir ystyriaeth briodol i'r gwahaniaethau hynny a'r effeithiau gwahanol y maent yn debygol o'u cael ar y gymuned leol.

19.3 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio polisïau o'r math hwn dim ond:

- fel sail ar gyfer diddymu trwydded neu dystysgrif pan ddaw sylwadau i law am broblemau ynghylch safleoedd trwyddedig presennol, neu

- i wrthod addasiadau i drwydded, ac eithrio sefyllfaoedd lle mae'r addasiadau yn uniongyrchol berthnasol i'r polisi, er enghraifft os yw'r cais yn gofyn am gynnydd sylweddol yn y terfyn capasiti.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw ardaloedd effaith gronnus.

## 20. Digwyddiadau ar Raddfa Fawr

20.1 Digwyddiadau dros dro yw'r rhain ond disgwylir i fwy na 499 o bobl fynychu. Gall tyrfaoedd llawer mwy gael eu denu i ddigwyddiadau ar raddfa fawr a gall y risg i ddiogelwch y cyhoedd ac i droseddu ac anhrefn, yn ogystal â niwsans cyhoeddus, fod yn sylweddol. Dylid rhoi'r cyfle cynharaf i'r Awdurdod Trwyddedu a'r holl ymgyngoreion statudol eraill i gael rhybudd am ddigwyddiadau mawr o'r fath a thrafod amserlenni gweithredu gyda'r trefnydd cyn cyflwyno cais ffurfiol. Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad/ymgeisydd yw rhoi rhybudd, ar y cyfle cynharaf, i'r Awdurdod Trwyddedu a'r holl ymgyngoreion statudol eraill am ddigwyddiadau mawr o'r fath. Bydd hyn yn golygu bod modd trafod amserlenni gweithredu cyn cyflwyno cais ffurfiol. Disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn ystyried sut y bydd ei ddigwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel

a sut y bydd yn effeithio ar yr ardal gyfagos. Ar gyfer digwyddiadau mawr megis gwyliau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl derbyn cynllun rheoli digwyddiad i'w gyflwyno gyda'r cais am drwydded. Dylai cynllun rheoli digwyddiadau fod yn ddogfen weithio sy'n cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut y bydd y safle'n cael ei redeg yn ystod y digwyddiad.

## 21. Goruchwyliwr Dynodedig y Safle

21.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i Oruchwyliwr Dynodedig y Safle (GDS) oruchwylio a rheoli'r safle o ddydd i ddydd, yn unol â chanllawiau Adran 182. Os na all GDS ddangos cymhwysedd boddhaol o ran y dyletswyddau hyn, byddwn yn gofyn i ddeiliad y drwydded safle enwebu rhywun mwy addas yn ei le.

21.2 Os bydd pryderon ynghylch perfformiad GDS yn codi ar ôl ei benodi, gall yr Heddlu ofyn am adolygiad o'r drwydded safle ar unrhyw adeg yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu. Yn gyffredinol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau ynghylch gallu rheoli GDS oni bai, yng nghyd-destun safle penodol, bod rheolaeth wael yn debygol o arwain at droseddu ac anhrefn, risgiau i ddiogelwch y cyhoedd, neu niwsans cyhoeddus.

21.3 Mewn achosion eithriadol, gall yr Heddlu wrthwynebu'n ffurfiol penodiad unigolyn yn GDS. Os, yn dilyn gwrthwynebiad o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu y byddai penodi – neu gadw – y person hwnnw'n tanseilio'r amcan atal troseddau, bydd yr Awdurdod yn gwrthod neu'n dirymu ei ddynodiad fel GDS.

## 22. Gerddi Cwrw

22.1 Yn aml, mae gerddi cwrw yn cael eu cynnwys fel rhan o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Mae cerddoriaeth fyw â chwyddleisyddion sy'n digwydd mewn gardd gwrw wedi'i heithrio rhag gofynion trwyddedu, ar yr amod bod yr ardd gwrw wedi'i chynnwys yn y drwydded neu'r dystysgrif sy'n gymwys i'r safle trwyddedig perthnasol, a bod y perfformiad yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai.

22.2 Lle nad yw gardd gwrw yn rhan o'r safle trwyddedig perthnasol, ac felly nid yw wedi'i chynnwys mewn cynlluniau sydd ynghlwm wrth drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae'n debygol iawn y bydd yn weithle. O ganlyniad, rhaid cynnwys cynllun yr ardd gwrw er mwyn dangos ardal y gweithle.

22.3 Mae paragraff 12B o Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn datgan nad yw perfformiad o gerddoriaeth fyw mewn gweithle nad oes ganddo drwydded (ac eithrio i ddarparu lluniaeth hwyr y nos) yn adloniant rheoledig os yw'n digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl. Sylwch nid yw'r eithriad ym mharagraff 12B yn berthnasol i chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio.

22.4 Fodd bynnag, gall awdurdod trwyddedu, lle bo cyfiawnhad dros hynny, osod amod trwydded sy'n ymwneud â pherfformio cerddoriaeth fyw mewn gardd gwrw heb

drwydded sy'n cael ei gwasanaethu gan unrhyw drwydded safle gysylltiedig neu dystysgrif safle clwb. Cyn belled â bod amod o'r fath yn cael ei osod yn gyfreithlon, mae'n dod i rym yn unol â'i delerau.

## 23. Gorfodi

23.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gorfodaeth ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â phrotocol rhannu gwybodaeth. Trwy wneud hyn, caiff y prif egwyddorion o ran cysondeb, tryloywder a chymesuredd eu cynnal.

23.2 Bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw ymweld â safleoedd trwyddedig fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau a osodwyd fel rhan o'r drwydded. Gall yr ymweliadau gorfodi hyn fod yn archwiliadau rhagweithiol sydd wedi'u trefnu o flaen llaw yn seiliedig ar y risgiau a gyflwynir gan y safle, hanes o beidio â chydymffurfio ac ati, neu ymweliadau adweithiol o ganlyniad i gwynion yn unol â'r amgylchiadau y pryd hwnnw.

23.3 Pan fydd safle wedi derbyn trwydded, mae'n hanfodol bod y safle honno yn cael ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu gan hybu'r amcanion trwyddedu'n barhaus a chydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf. Gwneir trefniadau i fonitro perfformiad safleoedd o ran cadw at eu hamodau gweithredu, a bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi cymwys yn ôl yr amgylchiadau.

23.4 Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys ac awdurdodau gorfodi eraill i sefydlu protocolau er mwyn sicrhau bod y swyddogion sy'n gorfodi'r gyfraith trwyddedu ac sy'n archwilio safleoedd trwyddedig yn cael eu defnyddio'n effeithlon, a bod yr adnoddau yn cael eu hanelu at y safleoedd sy'n achosi problemau a'r rhai risg uchel.

23.5 Mae'r amcan statudol a geir yn Neddf 2003 i atal troseddau hefyd yn cynnwys atal troseddau mewnfudo ac atal pobl rhag gweithio'n anghyfreithlon mewn safleoedd trwyddedig. Dylai Awdurdodau Trwyddedu weithio gyda'r Swyddfa Gartref (Gorfodi Mewnfudo) yn ogystal â'r Heddlu ar y materion hyn.

## ATODIAD A

<u>*Atodlen dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau trwyddedu*</u>

| Mater dan sylw | Pwyllgor Trwyddedu | Paneli Trwyddedu | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Os na fydd gwrthwynebiad |
| Cais am drwydded bersonol gyda chollfarnau sydd heb ddarfod | | Pob achos | |
| Cais am drwydded safle/tystysgrif safle clwb | | Os gwnaethpwyd sylwadau perthnasol ac na thynnwyd hwy yn ôl | Os na wnaethpwyd sylwadau perthnasol neu os cawsant eu tynnu'n ôl |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Os gwnaethpwyd sylwadau perthnasol ac na thynnwyd hwy yn ôl | Os na wnaethpwyd sylwadau perthnasol neu os cawsant eu tynnu'n ôl |
| Cais i amrywio trwydded safle/tystysgrif clwb | | Os gwnaethpwyd sylwadau perthnasol ac na thynnwyd hwy yn ôl | Os na wnaethpwyd sylwadau perthnasol neu os cawsant eu tynnu'n ôl |
| Cais i amrywio Goruchwylydd Dynodedig y Safle | | Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais am fân amrywiad | | | Pob achos |
| Cais i ddiswyddo rhywun fel Goruchwylydd Dynodedig y Safle | | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo trwydded safle | | Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Ceisiadau am awdurdodaeth dros dro | | Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu trwydded safle/tystysgrif safle clwb | | Pob achos | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn wacsaw neu'n flinderus ac ati. | | | Pob achos* |
| Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro | | Ym mhob achos os na chaiff ei dynnu'n ôl | |
| Atal trwyddedau yn dilyn peidio â thalu ffioedd blynyddol | | | Pob achos |
| Penderfyniad a ddylid dirymu neu atal trwyddedau personol | | Pob achos | |

## ATODIAD B

*Awdurdodau Cyfrifol / Rhestr o'r Ymgyngoreion – Cyngor Sir Ceredigion*

| | |
|---|---|
| Tîm Trwyddedu<br>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion<br>SA46 0PA<br>licensing@ceredigion.gov.uk<br>Ffôn 01545 570881<br>www.ceredigion.gov.uk | Tîm Rheoli Datblygiad<br>Economi ac Adfywio,<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion<br>SA46 0PA<br>planning@ceredigion.gov.uk |
| Tîm Rheoli'r Amgylchedd<br>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion SA46 0PA<br>publicprotection@ceredigion.gov.uk | Tîm Iechyd a Diogelwch<br>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion<br>SA46 0PA<br>publicprotection@ceredigion.gov.uk |

| | |
|---|---|
| Tîm Safonau Masnach<br>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion SA46 0PA<br>tradingstandards@ceredigion.gov.uk | Swyddog Trwyddedu'r Heddlu<br>Heddlu Dyfed Powys<br>Gorsaf yr Heddlu<br>Parc Teifi<br>Aberteifi<br>Ceredigion<br>SA43 1EW<br>Louise.Bradshaw@dyfed-powys.pnn.police.uk |
| Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyngor Sir Ceredigion County Council<br>Penmorfa<br>Aberaeron<br>Ceredigion<br>SA46 0PA<br>contact-socservs@ceredigion.gov.uk | Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Trefechan<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 1BE<br>ceredigionfirecommand@mawwfire.gov.uk |
| Mr Steve Moore<br>Prif Weithredwr<br>Bwrdd Iechyd Hywel Dda<br>Llys Myrddin<br>Winch Lane<br>Hwlffordd<br>SA61 1SB<br>Alison.gittins@wales.nhs.uk | Ar gyfer eiddo lle mai'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yw'r awdurdod gorfodi ac eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arno yn unig:<br>Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Cymru<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Phase 1, Ty Glas<br>Llanishen<br>Caerdydd CF14 5SH |
| Home Office Alcohol Licensing Team,<br>Lunar House,<br>40 Wellesley Road,<br>Croydon CR9 2BY.<br>IE.Alcoholenquiries@homeoffice.gov.uk | |

**ATODIAD C**

## Rhestr o Amodau Enghreifftiol y 4 Sir

# Deddf Trwyddedu 2003
# Rhestr o Amodau Enghreifftiol

## Pedwar Cyngor Sir Ardal Heddlu Dyfed Powys
## Sir Gâr / Ceredigion /
## Sir Benfro a Phowys

**Cyflwyniad**

Wrth baratoi cais newydd neu amrywiad ar gyfer trwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu canlynol:

- Atal troseddau ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Mae'r rhestr hon o amodau trwyddedu wedi'i chynhyrchu ar y cyd â'r awdurdodau lleol yn ardal Heddlu Dyfed Powys, sef Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, i gynorthwyo ymgeiswyr i gwblhau'r adran hon o'u cais ac i hyrwyddo dull cyson o ran geiriad yr amodau, ei nod yw darparu ystod eang o amodau a ddylai gwmpasu'r rhan fwyaf o bosibiliadau.

Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn rhestr unigryw neu hollgynhwysol o amodau y dylid eu cynnwys ar drwydded neu dystysgrif. Dylai ymgeiswyr ystyried cynnig amodau sy'n briodol, yn angenrheidiol ac yn gymesur yn amgylchiadau eu cais penodol nhw yn unig. Yn ogystal, nid yw'r rhestr yn cyfyngu ar unrhyw ymgeisydd, Awdurdod Cyfrifol, na pherson arall rhag cynnig unrhyw amodau eraill, ac nid yw'n cyfyngu ar Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor rhag gosod unrhyw amod rhesymol ar drwydded y mae'n ei ystyried yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu (ar ôl derbyn sylwadau ar gais a thrwy wrandawiad).

Bydd unrhyw amodau, rheolaethau neu gyfyngiadau a gynigir gan ymgeiswyr yn eu hamserlen weithredu yn cael eu hychwanegu at drwydded neu dystysgrif, ac felly byddant yn llywio'r ffordd y mae safleoedd trwyddedig yn cael eu rheoli. Yn yr amgylchiadau lle mae geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir mewn atodlen weithredu yn ddryslyd, yn anorfodadwy ac ati, yn hytrach nag atgynhyrchu'r

termau hynny, gall yr Awdurdod Trwyddedu wneud mân ddiwygiadau. At hynny, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau y mae'n credu eu bod yn cael eu dyblygu mewn deddfwriaeth arall.

Dylai ymgeiswyr ystyried a oes modd bodloni amodau a bod yn ofalus ynghylch a yw'r hyn y maen nhw wedi'i gynnig yn ymarferol, yn realistig ac yn orfodadwy, gan gofio bod torri amod yn drosedd.

Cyn cyflwyno cais, rydym yn argymell bod ymgeiswyr yn cysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw Awdurdodau Cyfrifol perthnasol i drafod eu cais. Gallant awgrymu amodau y dylid eu hystyried cyn ei gyflwyno a all leihau'r tebygolrwydd y bydd Awdurdod Cyfrifol neu aelod o'r cyhoedd yn cyflwyno sylwadau (gwrthwynebiad). Gall Awdurdodau Cyfrifol gysylltu â chi ar ôl i chi gyflwyno eich cais i gynnig amodau pellach.

**Amodau gorfodol**

Mae nifer o amodau gorfodol a fydd yn berthnasol yn awtomatig i drwyddedau safle neu glwb perthnasol a rhaid cydymffurfio â nhw.

**Amodau gorfodol ar gyfer safleoedd lle mae alcohol yn cael ei werthu ar y safle neu oddi ar y safle:**

- ni chaniateir cyflenwi alcohol o dan y drwydded safle ar adeg pan nad oes Goruchwyliwr Dynodedig y Safle mewn perthynas â'r drwydded safle, neu
- ar adeg pan nad oes gan y Goruchwyliwr Dynodedig y Safle drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal
- rhaid i gyflenwi alcohol o dan y drwydded safle bob amser gael ei wneud neu ei awdurdodi gan rywun sydd â thrwydded bersonol.

- Rhaid i ddeiliad y drwydded safle neu ddeiliad y dystysgrif safle clwb sicrhau bod polisi gwirio oedran yn cael ei fabwysiadu mewn perthynas â'r safle o ran gwerthu neu gyflenwi alcohol.

- Rhaid i Oruchwyliwr Dynodedig y Safle mewn perthynas â'r drwydded safle sicrhau bod cyflenwi alcohol yn y safle yn cael ei wneud yn unol â'r polisi gwirio oedran.

- Rhaid i'r polisi ei gwneud yn ofynnol i unigolion sy'n ymddangos i'r person cyfrifol eu bod o dan 18 oed (neu'r oedran hŷn a bennir yn y polisi) ddangos, pan ofynnir amdano, cyn gael ei weini, ddogfen adnabod sy'n cynnwys llun, dyddiad geni a naill ai
    - marc holograffig, neu
    - nodwedd uwchfioled.

- Rhaid i berson perthnasol sicrhau nad yw unrhyw alcohol yn cael ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi ar y safle am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
  *"Pris a ganiateir" yw lefel y doll alcohol ynghyd â TAW. Cyfrifir lefel y doll ynghyd â TAW trwy gymryd y ffigur toll gartref berthnasol ar gyfer cynnyrch penodol ac yna cymhwyso'r gyfradd TAW gyfredol i'r swm hwn.*

- Bydd y person cyfrifol yn sicrhau, lle mae unrhyw un o'r diodydd alcoholaidd canlynol yn cael eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (ac eithrio diodydd alcoholaidd a werthir neu a gyflenwir ar ôl cael eu paratoi ymlaen llaw yn barod i'w gwerthu neu eu cyflenwi mewn cynhwysydd sydd wedi'i gau'n ddiogel), ei fod ar gael i gwsmeriaid yn y mesurau canlynol:
    - cwrw neu seidr: ½ peint;
    - jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

- gwin llonydd mewn gwydr: 125 ml.

- Mae'r mesurau hyn yn cael eu harddangos ar fwydlen, rhestr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

- Lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthu alcohol, yn nodi faint o alcohol sydd i'w werthu, rhoddir gwybod i'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

**Amodau gorfodol ar gyfer safleoedd lle mae alcohol yn cael ei werthu:**

- Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar safle perthnasol yn cynnal, trefnu nac yn cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddiadau anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

*Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau canlynol, neu weithgareddau sylweddol debyg, a gyflawnir at y diben o annog gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle.*

*a) Gemau neu weithgareddau eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu annog unigolion, neu a fwriedir i'w wneud yn ofynnol i unigolion neu annog unigolion i*

*i) Yfed swm o alcohol o fewn terfyn amser (ac eithrio yfed alcohol a werthir neu a gyflenwir ar y safle cyn diwedd y cyfnod y mae'r person cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu*

*ii) Yfed cymaint o alcohol â phosibl (boed o fewn terfyn amser neu fel arall);*

*b) darparu meintiau diderfyn neu amhenodol o alcohol yn rhad ac am ddim neu am ffi benodol neu ostyngol i'r cyhoedd neu i grŵp a ddiffinnir gan nodwedd arbennig mewn modd sy'n creu risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;*

*c) darparu alcohol am ddim neu am bris gostyngol neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n creu risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;*

*ch) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu daflenni hyrwyddo ar y safle, neu yng nghyffiniau'r safle, y gellir yn rhesymol ystyried eu bod yn cymeradwyo, annog neu'n glamoreiddio ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod mewn unrhyw ffordd ffafriol;*

*d) Un person yn rhoi alcohol yn uniongyrchol i geg rhywun arall (ac eithrio lle nad yw'r person arall hwnnw'n gallu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).*

- Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid lle mae'n rhesymol iddo fod ar gael.

**Safle amodau gorfodol ar gyfer dangos ffilmiau**

- Pan fydd trwydded safle yn awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i fynediad plant i unrhyw ffilm sy'n cael ei dangos gael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.

**Amodau gorfodol safle gyda goruchwylwyr drws**

- Pan fydd trwydded safle yn cynnwys amod bod rhaid i un neu ragor o unigolion fod yn y safle ar adegau penodol i gyflawni rôl diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n datgan bod rhaid i bob unigolyn o'r fath gael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

## Rhestr o Amodau Enghreifftiol

## Atal Troseddau ac Anhrefn

| | |
|---|---|
| CD1 | **System teledu cylch cyfyng (CCTV) gynhwysfawr**<br><br>***Dylai gosodwr achrededig NSI Gold neu SSAIB osod a chomisiynu system deledu cylch cyfyng.***<br><br>• Rhaid i bob mynedfa ac allanfa gael camera sy'n bodloni'r Safon Adnabod. Dylid ystyried yr un safon ar gyfer mannau uwchben tiliau.<br>• Rhaid i'r ardal drwyddedig gyfan gyda mannau cyrraedd a gadael fodloni'r safon Arsylwi ofynnol a rhaid peidio â chael unrhyw fannau cudd nac aneglur. Ni ddylai unrhyw beth guddio'r camerâu a dylid bod yn ofalus wrth osod unrhyw oleuadau/goleuadau disgo i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar ansawdd y lluniau trwy achosi llewyrch diangen.<br>• Rhaid i'r recordiad fod mewn lliw. Rhaid iddo recordio o leiaf 25 delwedd yr eiliad a bydd stamp amser a dyddiad ar bob delwedd.<br>• Bydd pob darn o ffilm yn ystod oriau gweithgareddau trwyddedadwy yn cael ei gadw am gyfnod o 30 diwrnod.<br>• Rhaid i'r system teledu cylch cyfyng weithredu'n barhaus, ac os bydd diffyg yn codi rhaid hysbysu'r Heddlu a rhaid gwneud trefniadau ar unwaith i gywiro'r nam. Gallai systemau diffygiol fod yn dorri amodau'r drwydded.<br>• Rhaid i berson cymwys fod ar gael **ar alw** i Swyddog yr Heddlu/ Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu / Swyddog Trwyddedu neu unrhyw swyddogion Awdurdod Cyfrifol perthnasol i weld, cadw ac allgludo recordiadau'n gyflym, a meddalwedd sy'n caniatáu uwchlwytho delweddau i systemau digidol yr Heddlu sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Axon (rhestr lawn o fformatau cydnaws ar gael yma).<br>• Rhaid cofrestru'r system gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth (ffôn 0303 123 1113 neu ebost registration@ico.org.uk) |

| | |
|---|---|
| CD2 | **System Teledu Cylch Cyfyng Sylfaenol**<br>• Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod a'i chynnal ar y safle sy'n cwmpasu pob ardal drwyddedig, mannau cyrraedd a gadael.<br>• Bydd y system yn recordio'n barhaus tra bo'r safle ar agor ac yn cynnal gweithgareddau trwyddedadwy.<br>• Rhaid i'r delweddau o'r system teledu cylch cyfyng allu cael eu recordio ar fformat y gellir ei lawrlwytho'n hawdd.<br>• Caiff delweddau a recordiwyd gan y system teledu cylch cyfyng eu cadw am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod a dylid eu rhoi i'r Heddlu neu swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdod Cyfrifol perthnasol ar gais.<br>• Rhaid i bob delwedd a recordir gan y system teledu cylch cyfyng nodi dyddiad ac amser cywir. |
| CD3 | Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os yw'r offer teledu cylch cyfyng yn torri lawr. Dylid cofnodi'r wybodaeth hon ar yr un pryd mewn cofrestr adrodd digwyddiadau a bydd yn cynnwys yr amser, y dyddiad a'r modd y gwnaed hyn, ac i bwy y rhoddwyd y wybodaeth. Rhaid cymryd camau ar unwaith i gael yr offer i weithio eto. Dylid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu pan fydd diffygion yn cael eu cywiro. |
| CD4 | Rhaid i aelod o staff o'r safle sy'n gyfarwydd â gweithrediad y system teledu cylch cyfyng fod ar y safle bob amser pan fydd y safle ar agor. Rhaid i'r aelod staff hwn allu darparu copïau o ddelweddau neu ddata teledu cylch cyfyng diweddar i swyddog awdurdodedig Awdurdod Cyfrifol gyda'r oedi lleiaf posibl pan ofynnir amdano. |
| CD4 | Ar unrhyw adeg lle mae'r safle'n cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ar ôl yr oriau (AA:MM), rhaid i o leiaf { nodwch y rhif} goruchwylydd drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch fod ar ddyletswydd o'r oriau (AA:MM) tan o leiaf { } munud ar ôl i'r safle gau. |
| CD5 | Ar {bob diwrnod/nodwch ddyddiau} bydd o leiaf {nodwch y nifer} goruchwylydd drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant |

| | |
|---|---|
| | Diogelwch ar ddyletswydd yn y {safle/lleoliad yn y safle} {bob amser/o (AA:MM) tra bo'r safle ar agor ac am o leiaf { } munud ar ôl i'r safle gau. |
| CD6 | Lle defnyddir goruchwylwyr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar y safle, rhaid cynnal a chadw cofnod ar y safle sy'n ddarllenadwy ac yn rhoi manylion am:<br>• Y diwrnod a'r dyddiad y defnyddiwyd goruchwylwyr drws;<br>• Enw a rhif cofrestru Awdurdod y Diwydiant Diogelwch pob goruchwyliwr drws sydd ar ddyletswydd yn y safle; ac<br>• Amser dechrau a gorffen cyfnod dyletswydd gwaith pob goruchwyliwr drws. Dylid cadw'r cofnod hwn ar y safle am 31 diwrnod a'i roi ar unwaith i'r Heddlu neu staff yr Awdurdod Trwyddedu ar gais rhesymol. |
| CD7 | Bydd yr holl staff sy'n ymwneud â gweithgarwch trwyddedadwy ar y safle yn cael hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Y cynllun Herio 21/25* (dileu yn ôl y galw) sydd ar waith yn y safle, gan gynnwys y mathau o ddogfennau adnabod sy'n dderbyniol.<br>• Yr oriau a'r gweithgareddau a ganiateir gan y drwydded safle/tystysgrif safle clwb* (dileer fel y bo'n briodol) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded/tystysgrif* (dileer fel y bo'n briodol).<br>• Sut i gwblhau a chynnal y gofrestr gwrthod sydd ar waith yn y safle (mewn perthynas â gwerthu alcohol).<br>• Adnabod arwyddion meddwdod.<br>• Y gweithdrefnau gweithredu ar gyfer gwrthod gwasanaeth i unrhyw berson sy'n feddw, dan oed neu sy'n ymddangos ei fod dan oed, neu sy'n ymddangos ei fod yn prynu trwy ddirprwy.<br>• Y camau i'w cymryd mewn argyfwng, gan gynnwys riportio digwyddiad i'r gwasanaethau brys.<br>Caiff hyfforddiant ei gofnodi ar ffurf ddogfennol a'i adnewyddu'n rheolaidd ar gyfnodau o ddim mwy na (mewnosod). Rhaid |

| | |
|---|---|
| | sicrhau bod cofnodion hyfforddi ar gael i'w harchwilio a'u copïo ar adegau rhesymol ar gais swyddog awdurdodedig Awdurdod Cyfrifol.<br>Bydd cofnodion hyfforddi yn cael eu cadw am o leiaf 12 mis |
| CD8 | Caiff cofnod o ddigwyddiadau ei gadw ar y safle a fydd yn cynnwys cofnod o'r canlynol, gan gynnwys manylion perthnasol (dewiswch o'r canlynol):<br><br>• Unrhyw achosion o anhrefn neu o natur dreisgar neu wrthgymdeithasol<br>• Pob trosedd a adroddir i'r lleoliad, neu gan y lleoliad i'r Heddlu<br>• Pob cwsmer sy'n cael ei daflu allan<br>• Unrhyw gwynion a dderbyniwyd<br>• Atafaelu cyffuriau neu offer ymosodol<br>• Unrhyw namau yn y system teledu cylch cyfyng<br><br>Rhaid cwblhau cofnodion o fewn 24 awr i unrhyw ddigwyddiad, a byddant yn cynnwys yr amser a'r dyddiad, natur y digwyddiad, y bobl sy'n ymwneud â'r digwyddiad, y camau a gymerwyd a manylion y person sy'n gyfrifol am reoli'r safle ar adeg y digwyddiad. Dylid cadw'r cofnodion am o leiaf 12 mis ar ôl dyddiad y cofnod a byddant ar gael i'w harchwilio a'u copïo ar gais swyddog awdurdodedig Awdurdod Cyfrifol. |
| CD9 | Bydd polisi dim goddefgarwch ar waith ac yn cael ei weithredu ar y safle ar gyfer defnyddio/meddu ar gyffuriau rheoledig a sylweddau seicoweithredol a hysbysebu hyn o fewn y safle ar bosteri a dulliau tebyg. Bydd y polisi hwn yn cynnwys yn benodol, ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>• Arferion chwilio wrth fynd i mewn;<br>• Delio â chwsmeriaid sy'n cael eu hamau o ddefnyddio cyffuriau ar y safle; |

| | |
|---|---|
| | • Craffu ar fannau gan gynnwys toiledau neu fannau awyr agored;<br>• Disgwyliadau clir ynghylch rolau staff (gan gynnwys Goruchwyliwr Dynodedig y Safle, rheolwyr/goruchwylwyr a goruchwylwyr drws);<br>• Hyfforddiant staff ar adnabod gweithgarwch amheus a pha gamau i'w cymryd;<br>• Trin eitemau y credir eu bod yn gyffuriau anghyfreithlon neu'n sylweddau seicoweithredol;<br>• Y camau a gymerwyd i annog ac amharu ar ddefnyddio cyffuriau ar y safle;<br>• Y camau i'w cymryd i hysbysu cwsmeriaid am bolisi/arferion cyffuriau'r safle.<br>Rhaid i'r polisi fod ar gael i'w archwilio ar gais swyddog awdurdodedig neu Awdurdod Cyfrifol. |
| CD10 | Yn ystod y cyfnod y mae'r safle ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, rhaid archwilio'r toiledau o leiaf bob awr er mwyn:<br>• canfod ac atal y defnydd o gyffuriau rheoledig a sylweddau seicoweithredol; a<br>• chynnal diogelwch y cyhoedd.<br>Caiff cofnod o'r archwiliadau hyn ei gynnal gyda dyddiad, amser a chyflwr y toiledau a'r aelod staff sy'n cwblhau'r archwiliad. Dylid gwneud y cofnodion hyn ar yr un pryd, eu cadw ar y safle am o leiaf { } mis a sicrhau eu bod ar gael ar unwaith ar gais i staff yr Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu. |
| CD11 | Rhaid arddangos hysbysiad clir a darllenadwy mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu y bydd yr Heddlu'n cael gwybod os canfyddir bod unrhyw un yn meddu ar sylweddau rheoledig neu arfau. |
| CD12 | Bydd yr holl staff sy'n cael eu cyflogi mewn ardaloedd trwyddedig y safle wedi cael hyfforddiant mewn adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant a hyfforddiant ymgysylltu llesiant a hyglwyfedd neu 'Gofynnwch am Angela' i helpu cwsmeriaid a allai fod mewn sefyllfa anniogel. |

| | |
|---|---|
| | Dylid cynnal hyfforddiant gloywi o leiaf { }. Bydd cofnodion hyfforddi ysgrifenedig yn cael eu cadw ar y safle am o leiaf { } mis a byddant ar gael ar unwaith i staff yr Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu ar gais. |
| CD13 | Bydd pob achos o sbeicio yn cael ei weithredu arno a bydd pob achos o sbeicio honedig yn cael ei gofnodi a'i adrodd i'r Heddlu. Dylid:<br><br>• cael manylion llawn am y person a effeithiwyd sy'n adrodd am y digwyddiad, gan gynnwys disgrifiad o'r hyn y mae'n ei wisgo gan y bydd swyddogion am eu gweld nhw ar deledu cylch cyfyng<br>• rhoi disgrifiad mor fanwl â phosibl o'r troseddwr honedig, os yw'n hysbys, gan gynnwys dillad<br>• nodi amser y digwyddiad yn fras a'r lleoliad o fewn y safle lle credir i'r achos ddigwydd<br>• cadw'r llestr(i) yfed y credir ei fod yn cynnwys y 'cyffur' fel y gellir ei brofi yn ddiweddarach<br>• atafaelu unrhyw lestr yfed y gallai'r sawl a ddrwgdybir fod wedi defnyddio<br>• sicrhau iechyd a diogelwch y cwsmer drwy:<br>✓ ffonio'r gwasanaethau brys neu<br>✓ sicrhau ei fod yng nghwmni ffrindiau dibynadwy a fydd yn gofalu amdanynt, neu<br>✓ cynnig cymorth os oes angen, a darparu lle diogel i'r cwsmer. |
| CD14 | Bydd posteri atal troseddu ynghylch sbeicio diodydd yn cael eu harddangos ar y safle. |
| CD15 | • Bydd gwerthu a chyflenwi alcohol/lluniaeth hwyr y nos rhwng yr oriau 2300 a 0500 wedi'i gyfyngu i wasanaeth gan staff trwy'r [ffenestr talu gyda'r nos/hatsh gyrru trwodd/tecawê].<br>• Bydd drws mynediad yr adeilad ar gau a bydd cwsmeriaid yn cael eu hatal rhag cael mynediad i'r adeilad rhwng yr oriau 2300 a 0500. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd dyfais cloi electronig wedi'i gosod ar brif ddrws yr adeilad i'w gweithredu gan staff pan fydd angen rhwng yr oriau 2300 a 0500 pan fydd yr adeilad ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.<br>• Bydd o leiaf ddau aelod o staff ar ddyletswydd rhwng yr oriau 2300 a 0500 bob amser. |

## Atal Niwsans Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| PN1 | Rhaid gosod cyfyngwr sŵn ar y system chwyddleisio cerddorol ar lefel a bennir gan ac i foddhad swyddog awdurdodedig Gwasanaeth Llygredd Iechyd yr Amgylchedd er mwyn sicrhau nad yw unrhyw niwsans sŵn yn cael ei achosi i drigolion neu fusnesau lleol a:<br>a) Caiff panel gweithredu'r cyfyngwr sŵn ei ddiogelu gan allwedd neu gyfrinair i foddhad swyddogion Gwasanaeth Llygredd Iechyd yr Amgylchedd, a dim ond personau sydd wedi'u hawdurdodi gan ddeiliad y drwydded safle all gael mynediad iddo.<br>b) Ni chaiff y cyfyngwr ei newid heb gytundeb ymlaen llaw Gwasanaeth Llygredd Iechyd yr Amgylchedd.<br>c) Ni ddylid gwneud unrhyw newid nac addasiad i unrhyw system(au) sain bresennol heb i swyddog awdurdodedig Gwasanaeth Llygredd Iechyd yr Amgylchedd wybod am hynny ymlaen llaw.<br>ch) Ni chaiff unrhyw offer cynhyrchu sain ychwanegol eu defnyddio ar y safle heb iddo gael ei lwybro trwy'r ddyfais cyfyngu sain. |
| PN2 | Ni fydd uchelseinyddion wedi'u lleoli yn y cyntedd nac y tu allan i adeilad y safle. |
| PN3 | Ac eithrio pan gaiff ei ddefnyddio gan gwsmeriaid i fynd i mewn neu allan, rhaid cadw pob ffenestr a drws allanol ar gau {bob amser pan fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae} a/neu {ar ôl yr oriau (AA:MM) / ar unrhyw adeg arall}. |
| PN4 | Bydd staff yn gwirio nad yw drysau hunan-gau yn cael eu dal ar agor yn ystod adloniant rheoledig. |
| PN5 | Ni chaiff unrhyw gerddoriaeth neu luniaeth hwyr y nos eu darparu mewn ardaloedd allanol {ar unrhyw adeg/ar ôl yr oriau (AA:MM)}. |
| PN6 | Ar ôl yr oriau { } ni ddylid mynd ag unrhyw ddiodydd i'r ardal awyr agored ac ni fydd unrhyw ddiodydd yn cael eu hyfed ar ôl yr oriau { }. |

| | |
|---|---|
| PN7 | Ni chaniateir yfed diodydd y tu allan i'r safle ar ôl yr oriau { }. |
| PN8 | Rhaid cau a chlirio cwsmeriaid o bob ardal awyr agored erbyn yr oriau { }. Dylid arddangos hysbysiadau digonol i hysbysu cwsmeriaid am y gofyniad hwn. |
| PN9 | Ni chaniateir yfed diodydd a brynwyd o'r safle y tu allan i'r safle. |
| PN10 | Rhaid i ddeiliad y drwydded safle sicrhau bod unrhyw gwsmeriaid sy'n yfed a/neu'n ysmygu y tu allan i'r safle yn gwneud hynny mewn modd trefnus ac yn cael eu goruchwylio gan staff er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwsans cyhoeddus na rhwystr ar y briffordd gyhoeddus. |
| PN11 | Bydd hysbysiadau clir a darllenadwy yn cael eu harddangos yn amlwg ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion a busnesau lleol a gadael yr ardal hon cyn gynted â phosibl ac mor dawel â phosibl. |
| PN12 | Rhaid arddangos arwyddion clir a darllenadwy yn amlwg yn yr ardal awyr agored yn nodi na ddylid mynd â diodydd i'r ardal hon ar ôl yr oriau { }. |
| PN13 | Bydd hysbysiadau clir a darllenadwy yn cael eu harddangos yn amlwg mewn unrhyw ardal a ddefnyddir ar gyfer ysmygu yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a bod yn dawel pan fyddant yn yr ardal. |
| PN14 | Ni ddylid codi casgenni, gweithredu offer glanhau poteli, gwaredu poteli ac eitemau tebyg cyn yr oriau { } nac ar ôl yr oriau { }. |
| PN15 | Ni chaniateir dderbyn unrhyw nwyddau (mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedadwy) i'r safle rhwng yr oriau { } a { }. |
| PN16 | Rhaid bod mesurau digonol yn eu lle i gael gwared ar sbwriel neu wastraff sy'n deillio o gwsmeriaid, ac atal sbwriel/gwastraff o'r fath rhag cronni yng nghyffiniau eu safle. Lle bo angen, rhaid cael mesurau digonol yn eu lle i ddarparu digon o gynwysyddion i gwsmeriaid ar gyfer gwaredu deunyddiau gwastraff megis deunyddiau lapio bwyd, |

| | |
|---|---|
| | cynwysyddion diodydd, sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu ac ati. |
| PN17 | Caiff alcohol ei weini gan weinydd/gweinyddes i gwsmeriaid sy'n eistedd wrth fwrdd ac sydd wedi cael neu sy'n bwriadu cael pryd o fwyd sylweddol yn unig. |
| PN18 | Bydd gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio cynwysyddion wedi'u selio yn unig ac ni ddylid ei yfed ar y safle. |

## Hyrwyddo Diogelwch y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| PS1 | Ni fydd y nifer uchaf o bobl (gan gynnwys staff ac adlonwyr) a ganiateir ar y safle yn fwy na (rhowch y nifer). |
| PS2 | Caiff systemau rheoli rhifau electronig â llaw ac awtomatig eu gosod, eu defnyddio a'u cynnal ar y safle bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd. Ni fydd nifer y bobl a ganiateir ar y safle ar unrhyw adeg (gan gynnwys staff) yn fwy na (X) o bobl. |
| PS3 | Yn absenoldeb golau dydd digonol, bydd goleuadau artiffisial mewn unrhyw ardal lle gall y cyhoedd gael mynediad iddi yn gwbl weithredol tra bo'r cyhoedd yn bresennol. |
| PS4 | Caiff pob diod ei weini mewn cynwysyddion plastig/papur/gwydr caled neu bolycarbonad yn ystod y digwyddiadau neu achlysuron canlynol (nodwch ddigwyddiadau penodol). |
| PS5 | Caiff pob diod ei weini mewn cynwysyddion plastig/papur/gwydr caled neu bolycarbonad. |
| PS6 | Ni chaniateir i gwsmeriaid sy'n cael caniatâd i adael y safle dros dro ac yna mynd i mewn eto, e.e. i ysmygu, mynd â diodydd na chynwysyddion gwydr gyda nhw. |
| PS7 | Ni ellir cymryd unrhyw lestr yfed, gwydr neu botel o'r safle. |

| | |
|---|---|
| PS8 | Ni chaniateir i unrhyw gwsmeriaid sy'n cario poteli, caniau neu gynwysyddion eraill sydd ar agor neu wedi'u seilio sy'n cynnwys gwirod alcoholig gael mynediad i'r safle ar unrhyw adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. |
| PS9 | Bydd ciwio y tu allan i'r safle yn gyfyngedig i ardal ddynodedig a leolir yn (nodwch y lleoliad). |
| PS10 | Bydd y dulliau dianc a ddarperir ar gyfer y safle heb eu rhwystro, yn rhydd o beryglon baglu, bod ar gael ar unwaith, a'u nodi'n glir yn unol â'r cynlluniau a ddarperir. |
| | **Safleoedd lle mae paffio wedi'i awdurdodi** |
| BLWCH 1 | Yr unig ddigwyddiadau paffio/reslo (chwaraeon ymladd) y dylid eu cynnal ar y safle yw digwyddiadau a hyrwyddir yn broffesiynol. |
| BLWCH2 | Ni fydd unrhyw ddigwyddiadau paffio coler wen neu baffio amatur yn cael eu cynnal ar y safle. |
| BLWCH3 | Bydd ymarferydd meddygol cymwys priodol yn bresennol trwy gydol adloniant chwaraeon sy'n cynnwys paffio, reslo, jiwdo, carate neu adloniant chwaraeon arall o natur debyg. |
| BLWCH4 | Lle mae cylch yn rhan o'r digwyddiad, bydd yn cael ei adeiladu gan berson cymwys a'i archwilio gan awdurdod cymwys. Bydd unrhyw ddeunydd a ddefnyddir i ffurfio'r sgert yn ddeunydd gwrth-dân. |
| BLWCH5 | Mewn unrhyw adloniant paffio/reslo neu chwaraeon tebyg, ni fydd aelodau'r cyhoedd yn eistedd mewn unrhyw sedd o fewn 2.5 metr i'r cylch. |
| BLWCH6 | Dim person o dan 18 oed i fynychu digwyddiadau paffio. |
| BLWCH7 | Dim gwerthiant tocynnau ar ddiwrnod y digwyddiad. |
| BLWCH8 | Rhaid i docynnau gynnwys enw'r sawl sy'n mynychu. |
| BLWCH9 | Rhaid i Oruchwyliwr Dynodedig y Safle neu uwch reolwr fod yn bresennol mewn digwyddiadau paffio. |
| | **Amodau Pellach ar gyfer Paffio Coler Gwyn** |

| | |
|---|---|
| BLWCH10 | Rhaid i ddeiliad y drwydded safle gynhyrchu cynllun rheoli paffio a chwaraeon ymladd eraill penodol gydag asesiadau risg. |
| BLWCH11 | Rhaid i ddeiliad y drwydded safle gydymffurfio â'r cynllun rheoli digwyddiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu ac a gymeradwywyd ganddo 28 diwrnod cyn y digwyddiad. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun rheoli digwyddiadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw yr Awdurdod Trwyddedu. |
| BLWCH12 | Rhaid i'r cynllun nodi, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r, canlynol:<br>• Unigolion cyfrifol a enwir<br>• Sut y bydd ymladdwyr yn cael eu paru<br>• Y mesurau a fydd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant cystadleuwyr gan gynnwys cyfleusterau meddygol a darpariaeth staff cymwys<br>• Manylion y paffiwr<br>• Cynllun y lleoliad<br>• Rheolau cystadlu<br>• Dyfarnwr gan gynnwys cymwysterau |

**Diogelu Plant rhag Niwed**

| | |
|---|---|
| C1 | Ni chaniateir plant digwmni o dan (nodwch yr oedran) ar y safle ar unrhyw adeg. |
| C2 | Caniateir i blant sydd yng nghwmni rhywun o dan (nodwch yr oedran) aros ar y safle dim ond rhwng yr oriau { }. |
| C3 | Ni chaniateir i unrhyw berson o dan (nodwch yr oedran) fynd i mewn i'r safle trwyddedig nac aros yno pan fydd alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi. |
| C4 | Bydd pob til yn annog staff yn awtomatig i ofyn am brawf adnabod oedran pan gyflwynir gwerthiant alcohol. |

| | | |
|---|---|---|
| C5 | | Ni chaniateir unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer y rhai o dan 18 oed yn unig ar y safle. |
| C6 | | Ni chaniateir i unrhyw bersonau o dan 18 oed fod yn bresennol. |
| C7 | | Bydd cynllun Herio 25 yn cael ei weithredu, lle mae'n ofynnol i unrhyw berson sydd i'w weld ei fod o dan 25 oed gyflwyno, ar gais, eitem sy'n bodloni'r gofyniad gwirio oedran gorfodol ac sydd naill ai'n:<br>• cerdyn prawf oedran sy'n dwyn yr hologram PASS;<br>• trwydded yrru gyda llun;<br>• pasbort. |
| C8 | | Rhaid i'r safle arddangos arwyddion yn glir ym mhob man gwerthu ac mewn mannau lle mae alcohol yn cael ei arddangos yn hysbysu cwsmeriaid bod polisi 'Herio 25' mewn grym. |
| C9 | | Bydd cofnod o wrthodiadau yn cael ei gynnal ar y safle gyda manylion am bob gwrthodiad i werthu alcohol. Rhaid i bob cofnod, o leiaf, gofnodi dyddiad ac amser y gwrthodiad ac enw'r aelod staff sy'n gwrthod y gwerthiant. |

**Digwyddiadau**

| | | |
|---|---|---|
| E1 | | Rhaid i weithredwr y drwydded safle neu ei asiant gwblhau Cynllun Rheoli Digwyddiadau mewn perthynas â'r {digwyddiad â therfyn amser/digwyddiad trwyddedig}.<br><br>Rhaid cyflwyno'r Cynllun Rheoli Digwyddiadau hwn i'r Awdurdod Trwyddedu yn gyntaf ddim hwyrach na {nodwch nifer yr wythnosau/diwrnodau} wythnos/diwrnod cyn y digwyddiad.<br><br>Ddim hwyrach na {nodwch nifer yr wythnosau} cyn diwrnod cyntaf disgwyliedig y digwyddiad, rhaid darparu fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Digwyddiadau i'r Awdurdod Trwyddedu neu'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau i'w ystyried.<br><br>Bydd deiliad y drwydded safle neu ei asiant yn ymgysylltu â Chadeirydd ac aelodau'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch |

| | |
|---|---|
| | Digwyddiadau ac yn mynychu unrhyw gyfarfodydd o'r Grŵp i drafod y digwyddiad ar gais.<br><br>Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu neu'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yn datgan bod fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Diogelwch yn anfoddhaol ac yn nodi ei fod yn ystyried bod un neu ragor o'r amcanion trwyddedu yn debygol o gael eu tanseilio, ni chaniateir gwerthu/cyflenwi alcohol a/neu ddarparu adloniant rheoledig o dan y drwydded.<br><br>Lle mae'r Awdurdod Trwyddedu neu Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yn datgan na all gymeradwyo fersiwn derfynol y Cynllun Rheoli Digwyddiadau neu'n nodi ei fod yn ystyried bod un neu ragor o'r amcanion trwyddedu yn debygol o gael eu tanseilio, ni chaniateir gwerthu/cyflenwi alcohol a/neu ddarparu adloniant rheoledig o dan y drwydded.<br><br>Lle na chaiff fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Digwyddiadau ei gwrthod, rhaid cydymffurfio â'r Cynllun ac ni chaniateir gwneud unrhyw newidiadau iddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw yr Awdurdod Trwyddedu. |

**<u>Dosbarthu Alcohol / Gwerthiannau Ar-lein</u>**

| | |
|---|---|
| A1 | Ar adeg gwneud archeb ar-lein am alcohol, bydd angen datganiad gan y person sy'n gosod yr archeb ei fod dros 18 oed. |
| A2 | Bydd pob gyrrwr dosbarthu alcohol yn 18 oed neu'n hŷn |
| A3 | Ni fydd unrhyw archeb yn cael ei ddosbarthu i unrhyw berson o dan 18 oed. |
| A4 | Wrth gyflenwi alcohol dim ond alcohol a archebwyd ymlaen llaw y caniateir ei gario yn y cerbyd dosbarthu. |
| A5 | Cynhelir hyfforddiant ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer archebion alcohol ar-lein ac archebion danfon alcohol. Dylid cofnodi hyfforddiant ar ffurf ddogfennol a chaiff ei adnewyddu'n rheolaidd ar gyfnodau heb fod yn fwy na (mewnosod). Dylid sicrhau bod cofnodion hyfforddi ar gael i'w harchwilio a'u copïo |

| | |
|---|---|
| | ar adegau rhesymol ar gais swyddog awdurdodedig Awdurdod Cyfrifol. Cedwir cofnodion hyfforddi am o leiaf 12 mis. |